

CYMRU'R DYFODOL

Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Adroddiad Monitro a Adolygu
Mawrth 2026



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



CYNNWYS

1.0 Cyflwyniad	3
2.0 Cwestiwn 1 - A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi cwmplas Cynllun Datblygu ym mhob un o dair haen y cynllun datblygu?	5
3.0 Cwestiwn 2 - A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi Datgarboneiddio?	12
4.0 Cwestiwn 3 - A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi'r gwaith o ddarparu ynni adnewyddadwy?	19
5.0 Cwestiwn 4 - A yw Cymru'r Dyfodol wedi helpu i ddiwallu anghenion tai yn y mannau cywir?	27
6.0 Cwestiwn 5 - A yw Cymru'r Dyfodol wedi gwneud lleoedd yn iachach?	35
7.0 Cwestiwn 6 - A yw Cymru'r Dyfodol wedi helpu i atgyfnerthu ecosystemau a gwella bioamrywiaeth?	39
8.0 Cwestiwn 7 - A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi economi sy'n darparu ffyniant i bawb?	45
9.0 Casgliadau Terfynol	52
Atodiad	54

1.0 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso i ba raddau y mae **Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cymru'r Dyfodol)**¹, y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**, wedi dechrau cyflawni'r newid cadarnhaol y mae'n anelu at ei gyflawni a chyfrannu at weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Cyhoeddwyd cynllun strategol 20 mlynedd Cymru'r Dyfodol ym mis Chwefror 2021, a bydd y canlyniadau strategol y mae'n ceisio eu cyflawni yn cymryd amser. Mae monitro ac adolygu ei gynnydd tuag at gyflawni ei bolisïau a'i ganlyniadau'n bwysig i'w lwyddiant ac yn ofynnol gan ddeddfwriaeth.

Mae papur **Monitro ac Adolygu Cymru'r Dyfodol**², a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Cymru'r Dyfodol, yn nodi sut y dylid monitro Cymru'r Dyfodol. Dylid nodi nad yw Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a monitro Cymru'r Dyfodol yn ymarferion ar wahân ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dull ar gyfer adolygu Cymru'r Dyfodol. Mae gwaith monitro yn cael ei lywio gan dystiolaeth ansoddol a meintiol o bedair ffynhonnell allweddol:

- Y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol
- Dangosyddion sy'n gysylltiedig â pholisi
- Dangosyddion Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
- Tystiolaeth gyd-destunol

Mae ystadegau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd allweddol yn cael eu gwerthuso ochr yn ochr â thystiolaeth gyd-destunol a dynnwyd o ymgysylltiad â rhanddeiliaid ac adroddiadau ysgrifenedig a gyhoeddwyd ers mabwysiadu Cymru'r Dyfodol.

Mae'r papur hwn yn asesu'r dystiolaeth a gasglwyd, i ddod i gasgliadau ynghylch cynnydd, a oes angen adolygu Cymru'r Dyfodol, ac i nodi materion i'w hystyried ar gyfer ei gyhoeddiad nesaf. Mae'r adroddiadau allweddol a ystyriwyd yn cynnwys **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2021)**³, **Llesiant Cymru (2025)**⁴ ac **Arolwg Cenedlaethol Cymru (2024-25)**⁵ gyda manylion am y dangosyddion monitro a thystiolaeth gyd-destunol pwysig o fewn corff yr adroddiad ac yn Atodiad 1.

Mae'r Fframwaith Monitro a osodwyd gan bapur **Monitro ac Adolygu Cymru'r Dyfodol** yn nodi y dylai'r adroddiad hwn gael ei strwythuro o amgylch saith cwestiwn allweddol:

- A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi cwmipas Cynllun Datblygu ym mhob un o dair haen y cynllun datblygu?
- A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi datgarboneiddio?
- A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi'r gwaith o ddarparu ynni adnewyddadwy?
- A yw Cymru'r Dyfodol wedi helpu i ddiwallu anghenion tai yn y mannau cywir?
- A yw Cymru'r Dyfodol wedi gwneud lleoedd yn iachach?
- A yw Cymru'r Dyfodol wedi helpu i atgyfnerthu ecosystemau a gwella bioamrywiaeth?
- A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi economi sy'n darparu ffyniant i bawb?

¹ [Cymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040](#)

² [Monitro ac Adolygu Cymru'r Dyfodol](#)

³ [Tueddiadau'r Dyfodol: 2021](#)

⁴ [Llesiant Cymru 2025](#)

⁵ [Arolwg Cenedlaethol Cymru \(2024-25\)](#)

Mae'n bwysig nodi y dylid darllen Cymru'r Dyfodol ochr yn ochr â **Pholisi Cynllunio Cymru**⁶ a pholisïau cenedlaethol eraill. Nid yw Cymru'r Dyfodol yn cynnwys datganiadau ar yr holl faterion cynllunio defnydd tir a nodir ym **Mholisi Cynllunio Cymru**. Mae'n gosod polisïau ar faterion o flaenoriaeth genedlaethol neu faterion sy'n amlwg yn ofodol sy'n gofyn am arweinyddiaeth genedlaethol.

Ar ben hynny, mae'n bwysig cydnabod yr ystod o amodau allanol sydd wedi effeithio ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn. Ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, mae Cymru wedi parhau i deimlo effeithiau pandemig COVID-19, Brexit, y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw. Mae'r diwydiant datblygu hefyd wedi cael ei effeithio gan heriau amgylcheddol pwysig sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac ansawdd dŵr y môr sy'n cael ei archwilio ymhellach yn yr adroddiad.

Mae'r cefndir cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol nid yn unig wedi effeithio ar gynnydd yn gyffredinol, ond hefyd ar y ffordd y mesurir rhywfaint o dystiolaeth ystadegol yng Nghymru. Felly, gall rhai setiau data fod yn afreolaidd, a bydd gwerthusiad mwy cynhwysfawr o Gymru'r Dyfodol yn cael ei lunio dros amser.

⁶ [Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12](#)

2.0 Cwestiwn 1: A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi cwmpas Cynllun Datblygu ym mhob un o dair haen y cynllun datblygu?

2.1 CWMPAS CYNLLUN DATBLYGU

Cymru'r Dyfodol yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cymru sy'n darparu strategaeth ofodol a hirdymor ar gyfer twf ac i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol fel datgarboneiddio, gwytnwch hinsawdd, ffyniant economaidd a darparu tai. Ynghyd â **Pholisi Cynllunio Cymru**, mae'n ffurfio'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynllunio ac yn cyfarwyddo'r gwaith o gynhyrchu **Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol**.

Mae sicrhau bod cynlluniau datblygu llawn yn cwmpasu Cymru gyfan, ynghyd â mabwysiadu **Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol**, yn hanfodol er mwyn galluogi penderfyniadau sy'n cael eu harwain gan gynlluniau. Mae gweithredu polisiâu Cymru'r Dyfodol ar lefel ranbarthol a lleol drwy **Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol** yn cael ei ystyried yn fesur allweddol o gynnydd.

2.2 DEDDF LLESANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (2015)

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**⁷ yn ddarn nodedig o ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Mae'n sefydlu pwrpas cyffredin cyfreithiol rwymol i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y genedl.

Mae Cymru'r Dyfodol wedi cael ei groesawu'n gyffredinol ers ei gyhoeddi, gan ddarparu uchelgais ac agenda twf clir i Gymru sy'n cyd-fynd â nodau ac amcanion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae hefyd wedi darparu fframwaith defnydd tir i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau a strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Tynnodd adroddiad **Llywodraeth addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (2022)**⁸ gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, sylw at Gymru'r Dyfodol fel enghraifft dda o gynllun allweddol y llywodraeth sy'n ymestyn y tu hwnt i ystyriaethau o heriau cyfredol, a meddwl a chynllunio ar gyfer dyfodol tymor hwy. Roedd hefyd yn cydnabod ei gydweithrediad â chynlluniau cenedlaethol eraill a'i integreiddiad â'r dyletswyddau a osodwyd yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**.

Mae **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (2025)**⁹ unwaith eto yn nodi'r cynnydd cadarnhaol mewn ymrwymadau polisi hirdymor gan Lywodraeth Cymru, gan gyfeirio at Gymru'r Dyfodol fel enghraifft o hyn. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd fframwaith deddfwriaethol cydlynol sy'n gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, ac aliniad polisi clir i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gyfeirio at risg hinsawdd ac adferiad natur fel enghreifftiau. Mae monitro Cymru'r Dyfodol yn barhaus drwy gydol cyfnod y cynllun ac ystyried y cydbwysedd rhwng cynlluniau statudol ac anstatudol yn allweddol er mwyn sicrhau cynnydd tuag at y nodau deddfwriaethol a chenedlaethol hyn.

⁷ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

⁸ [Llywodraeth yn Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol \(2022\)](#)

⁹ [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol \(2025\)](#)

2.3 BIL(IAU) CYNLLUNIO (CYMRU) (2025)

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol mewn perthynas â'r **Bil Cynllunio (Cymru) (2025) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) (2025)**¹⁰. Mae'r Biliau yn dod â'r brif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru at ei gilydd i greu ffurf gydlynol a hygyrch. Maent yn moderneiddio strwythur ac iaith y gyfraith gynllunio, gan ei gwneud yn gliriach ac yn fwy cyson, gan hefyd gadw ei effaith gyfreithiol. Nid yw'r Biliau yn ceisio diwygio'r system gynllunio, ond maent yn gwella eglurder cyfreithiol a defnyddioldeb i gefnogi system gynllunio effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Biliau yn agosáu at eu camau terfynol yn y broses ddeddfwriaethol wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Senedd ar 10fed Mawrth 2026. Ar ôl cyfnod o hysbysu, disgwylir iddynt dderbyn Cymeradwyaeth Frenhinol ym mis Ebrill 2026 lle byddant yn swyddogol yn Ddeddfau'r Senedd. Er mwyn i'r Ddeddfau ddod i rym a dod yn fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer cyfraith cynllunio yng Nghymru, rhaid iddynt gael eu rhoi ar waith ynghyd â set o is-ddeddfwriaeth gysylltiedig. Disgwylir i gynllun gweithredu sy'n nodi'r camau a'r amserlenni i gychwyn y Ddeddfau gael ei gyhoeddi'r haf hwn.

2.4 CYNLLUNIAU DATBLYGU STRATEGOL

Mae cynllunio rhanbarthol yn ganolog i weledigaeth Cymru'r Dyfodol ar gyfer system gynllunio tair haen. Wedi'u paratoi gan **Gyd-bwyllgorau Corfforaethol** a sefydlwyd gan **Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**¹¹, mae **Cynlluniau Datblygu Strategol** yn gynlluniau ar gyfer canolbwyntio ar faterion rhanbarthol sy'n croesi ffiniau Awdurdodau Lleol. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi 4 rhanbarth, y mae angen i bob un ohonynt gyflwyno **Cynllun Datblygu Strategol**, a dylent ystyried materion gan gynnwys meysydd twf, galw am dai, datblygu economaidd, trafnidiaeth a seilwaith gwyrdd. Wrth nodi blaenoriaethau ar lefel ranbarthol, dylai **Cynlluniau Datblygu Strategol** gefnogi'r gwaith o hwyluso penderfyniadau haws a mwy cyson o ynghylch rheoli datblygiadau o bwysigrwydd rhanbarthol lle mae sawl Awdurdod Lleol wedi'u lleoli'n agos yn ddaearyddol. Mae gweithio rhanbarthol hefyd yn sicrhau'r buddion gorau ar gyfer rhannu sgiliau gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw **Gynlluniau Datblygu Strategol** wedi'u mabwysiadu yn unrhyw un o'r pedwar rhanbarth. Mae hyn oherwydd cyfuniad o adnoddau, gwleidyddiaeth, daearyddiaeth a phrinder amser ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd yn ddiweddar, gyda **Chytundeb Cyflenwi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**¹² a Chytundebau Cyflawni Rhanbarth Gogledd Cymru yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Gan ddangos ei hymrwymiad i **Gynlluniau Datblygu Strategol** a gweithio ar lefel ranbarthol, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu amryw o fentrau diweddar i gefnogi cynnydd. Gan gydnabod adborth gan **Gyd-bwyllgorau Corfforaethol** ac Awdurdodau Lleol sydd wedi codi pryderon ynghylch rhwystrau ariannol a heriau o safbwynt adnoddau, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid i ysgogi cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol. Er mwyn cefnogi gydag adnoddau cynyddol, mae cyllid hefyd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer Bwrsariaethau Cynllunio Trefol, yn ogystal â chyllid i gefnogi'r broses o ehangu Gwasanaethau Cynllunio a Rennir yng Ngogledd Cymru.

¹⁰ [Cydygyfeiriad y gyfraith gynllunio | LLYW.CYMRU](#)

¹¹ [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021](#)

¹² [Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Strategol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd \(2025\)](#)

2.5 CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

O fis Chwefror 2026, mae 21 o Awdurdodau Lleol a 3 Pharc Cenedlaethol yng Nghymru wedi mabwysiadu **Cynlluniau Datblygu Lleol**, a'r diweddaraaf o'r rhain yw Sir y Fflint, a fabwysiadodd ei gynllun yn 2023. Gan droi at **Gynlluniau Datblygu Lleol** diwygiedig, mabwysiadodd Pen-y-bont ar Ogwr eu **Cynllun Datblygu Lleol 2** yn 2024 ac mae **Cynllun Datblygu Lleol 2** Sir Gaerfyrddin yn y broses o gael ei archwilio. Mae Sir Benfro, Caerdydd a Sir Fynwy hefyd wedi cyflwyno eu **Cynllun Datblygu Lleol 2** i'w archwilio'n yn ddiweddar. Ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, mae'r holl **Gynlluniau Datblygu Lleol** (a fabwysiadwyd neu sydd yn cael eu diwygio) ac Adroddiadau Monitro Blyneddol yn cydnabod ei bolisïau. Mae Cymru'r Dyfodol yn amlwg yn dylanwadu ar ddatblygiad **Cynlluniau Datblygu Lleol**, gan ysgogi aliniad gyda pholisïau a chyflawni tuag at ei ganlyniadau. Gweler **Atodiad 2** am ddadansoddiad o'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â datblygiad **Cynlluniau Datblygu Lleol** ym mhob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol.

2.6 RHEOLIADAU FFIOEDD NEWYDD (2025)

Cyflwynwyd rheoliadau ffioedd ceisiadau cynllunio newydd¹³ ym mis Rhagfyr 2025. Mae hyn yn galluogi cynnydd mewn ffioedd ceisiadau cynllunio er mwyn i Awdurdodau Lleol ail-fuddsoddi yn eu gwasanaethau cynllunio. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio adnoddau, comisiynodd Llywodraeth Cymru y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) i gynnal adolygiad o'r sefyllfa o safbwynt capasiti, adnoddau a sgiliau ar draws gwasanaethau cynllunio yn y sector cyhoeddus. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror 2026¹⁴ yn cefnogi datblygiad strategaeth i gynyddu capasiti a gwytnwch gwasanaethau cynllunio er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y lle y byddant yn cael yr effaith fwyaf.

2.7 CYDLYNIANT AC YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn elfen allweddol o'r system gynllunio ac roedd yn hanfodol wrth gynhyrchu Cymru'r Dyfodol. Mae **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025**¹⁵ yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu cyn gynted â phosibl, bod yn dryloyw a sicrhau mynediad at wybodaeth, gan ddangos sut mae cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth a hysbysu pobl am effaith eu cyfraniadau. Mae system sy'n dilyn cynllun gydag ymgysylltiad ystyrion yn galluogi pawb i roi mewnbyn i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel o'r broses gynllunio.

Er bod newidiadau wedi digwydd i'r arolwg ers 2021, gwelwyd cynnydd o 19% yn nifer y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol yn 2018-19 i 30% yn 2021-22, gan awgrymu mwy o ymdeimlad o gyfranogiad cymunedol a lleol. Er bod ffigurau uwch wedi cael eu gweld, mae ffigurau 2024-25 wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, sef 19% yn 2024-25¹⁶.

Gellir gweld tuedd debyg mewn dangosyddion cenedlaethol eraill sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol, gan gynnwys boddhad pobl â'u hardal leol fel lle i fyw¹⁷ a'r rhai sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal¹⁸. Mae'r dangosydd cenedlaethol ar ddinasyddiaeth fyd-eang weithredol¹⁹ yn gyson ar y cyfan â blyneddodd blaenorol. Mae hyn yn ymwneud â

¹³ [Polisi ffioedd ceisiadau cynllunio](#)

¹⁴ [Adroddiad Adnoddau Cynllunio'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru \(2026\)](#)

¹⁵ [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol \(2025\)](#)

¹⁶ [Dangosydd Cenedlaethol 23](#)

¹⁷ [Dangosydd Cenedlaethol 26](#)

¹⁸ [Dangosydd Cenedlaethol 27](#)

¹⁹ [Dangosydd Cenedlaethol 46](#)

phobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau i helpu gyda materion megis tlodi, hawliau dynol, rhyfel, ffoaduriaid neu newid yn yr hinsawdd.

Mae angen monitro pellach dros y blynyddoedd sydd i ddod i weld a yw cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn, a bydd angen i unrhyw adolygiad o Gymru'r Dyfodol sicrhau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau i fod yn ganolog wrth ei baratoi.

2.8 DIWYLLIANT A'R GYMRAEG

2.8.1 Dangosyddion Diwylliannol

Mae Cymru'r Dyfodol yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyrwyddo diwylliant a'r rôl gadarnhaol y mae'n ei chwarae wrth gynnal a gwella hunaniaeth genedlaethol, iechyd, llesiant a chefnogi economi Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd â nodau llesiant **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** sy'n ymwneud â diogelu a hyrwyddo diwylliant bywiog, treftadaeth a'r iaith Gymraeg²⁰. Yn 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad **Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant (2025)**²¹ yn nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer diwylliant a'r disgwyliad bod pob sector yn ystyried sut y gellir eu hymgorffori mewn cynlluniau strategol a gweithredol.

Mae'r Dangosydd Cenedlaethol sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth²² yn parhau i fod yn eithaf sefydlog gyda data o 2022-23 yn dangos bod 72% o oedolion yn cymryd rhan o leiaf dair gwaith y flwyddyn yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae **Adroddiad Lles Cenedlaethol 2025**²³ yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfranogiad plant yn y celfyddydau wedi gostwng ac mae bellach ar yr un lefel neu'n is na'r hyn a welwyd degawd yn ôl. Mae achrediad amgueddfeydd ac archifau wedi gwella, ac mae cyflwr adeiladau rhestredig wedi gwella ychydig, tra bod henebion cofrestredig wedi dirywio.

2.8.2 Dangosyddion y Gymraeg

Mae Cymru'r Dyfodol yn mynd ati'n weithredol i gefnogi'r iaith Gymraeg fel ystyriaeth wedi'i hymgorffori yn strategaeth ofodol pob cynllun datblygu yn y system gynllunio. Mae'n tynnu sylw at uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau cynnydd o 10% yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd erbyn 2050 a osodwyd yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017)**²⁴.

Mae canfyddiadau **Cyfrifiad 2021**²⁵ yn dangos bod y Gymraeg wedi gostwng 1.2 pwynt canran yn genedlaethol ers Cyfrifiad 2011. Canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn 2021 oedd yr isaf a gofnodwyd mewn Cyfrifiad, er gwaethaf ymdrechion y llywodraeth i annog defnydd o'r iaith.

²⁰ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: yr hanfodion](#)

²¹ [Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant \(2025\)](#)


²² [Dangosydd Cenedlaethol 35](#)

²³ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

²⁴ [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#)

²⁵ [Y Gymraeg yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\)](#)

Graff 1: Pobl tair oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg 1911 i 2021 (Cyfrifiad y Boblogaeth 1921-2021)



Gellir gweld gwahaniaethau rhanbarthol, gyda Gwynedd yn cynnwys y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 64.4%, a gwelwyd y cynnydd mwyaf rhwng 2011 a 2021 yng Nghaerdydd, sef 1.1%. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin, gostyngiad o 4.1%²⁶.

Mae data o **Arolwg Cenedlaethol Cymru (2024-25)**²⁷ hefyd yn dangos nad oes fawr o newid wedi bod ym mha mor aml mae pobl yn siarad Cymraeg. Roedd nifer y bobl 16+ oed sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau yn 11% yn 2024/25, gan aros yn gyson ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol.

2.8.3 Polisi Ail Gartref a Gosod Llety Tymor Byr

Gwnaed ymrwymiad **Rhaglen Lywodraethu (2021)**²⁸ i fwrw ymlaen i gyfyngu ar nifer yr ail gartrefi ychwanegol, gan ddod â mwy o gartrefi i berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu tai gwyliau. Mae cyfres gydgyssylltiedig o fesurau wedi'u gweithredu i fynd i'r afael â phroblem ail gartrefi a gosodiadau tymor byr yng Nghymru a chyflawni ymrwymiad y llywodraeth. Mae ail gartrefi weithiau wedi'u crynhoi mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r ardaloedd cyfagos. Gall hyn arwain at batrymau meddiannaeth sy'n gallu effeithio'n niweidiol ar fywiogrwydd yr iaith yn yr ardaloedd hynny. Roedd y mesurau'n cynnwys elfen defnydd tir, a chyflwynwyd newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â Gorchmynion Dosbarthiadau Defnydd a Hawliau Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Gyda chefnogaeth newidiadau i **Bolisi Cynllunio Cymru**, mae hyn wedi galluogi awdurdodau lleol i reoli nifer yr ail gartrefi ychwanegol a'r tai gosod tymor byr mewn ardal trwy gyhoeddi Cyfarwyddyd Erthygl 4. Ar 1 Medi 2024, Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod cynllunio cyntaf i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau. Dilynodd Parc Cenedlaethol Eryri gyda'u Cyfarwyddyd Erthygl 4 ei hun a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2025.

2.8.4 Polisi Strategol y Gymraeg

Gan edrych tua'r dyfodol, mae **Cymraeg 2050: cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2025 i 2026**²⁹ yn canolbwyntio ar addysg, cynnal cymunedau sy'n siarad

²⁶ [Y Gymraeg yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\)](#)

²⁷ [Arolwg Cenedlaethol Cymru \(2024-25\)](#)

²⁸ [Y Cytundeb Cydweithio \(2021\)](#)

²⁹ [Cymraeg 2050: Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2025 i 2026](#)

Cymraeg, cynyddu'r defnydd o'r iaith a thechnoleg iaith. Ymhlith y mentrau allweddol mae **Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (2025)**³⁰ sy'n gosod cyfeiriad clir a chadarn mewn perthynas â sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o ran sgiliau Cymraeg yn y system addysg³¹.

Yn ogystal, cafodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022, y dasg o wneud argymhellion i gryfhau polisi cyhoeddus mewn perthynas â chynaliadwyedd ieithyddol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn 2024 cyhoeddodd adroddiad **Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg (2024)**³² a oedd yn amlygu'r berthynas bwysig rhwng cynllunio trefol a chynllunio iaith. Roedd yn nodi argymhellion yn ymwneud â chryfhau polisi cynllunio cenedlaethol a chydabod dosbarthiad gofodol siaradwyr Cymraeg. Paratôdd hefyd **Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar Gynllunio Gwlad a Thref (2025)**³³ a gyhoeddwyd yn 2025. Roedd yr adroddiad yn darparu argymhellion penodol yn ymwneud â chanllawiau cenedlaethol ar asesu effaith iaith a diffinio meysydd sensitifrwyd iaith. Roedd hefyd yn argymhell dynodiad statudol newydd o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch i ystyried dosbarthiad gofodol siaradwyr a mwy o ffocws ar yr ystyriaeth ar gyfer yr iaith, wedi'i lywio gan dystiolaeth, pan fydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu paratoi. Ar 24 Chwefror 2026 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad³⁴. Gellir rhoi ystyriaeth bellach i rôl Cymru'r Dyfodol yn y cyd-destun hwn.

2.9 CRYNODEB O'R CASGLIADAU

Mae Cymru'r Dyfodol yn sefydlu strategaeth ofodol hirdymor i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol ac yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy cydgyssylltiedig sy'n cyd-fynd â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**. Er bod haen genedlaethol y cynllun datblygu eisoes ar waith, mae sylw llawn ar draws pob lefel, yn enwedig yr haen ranbarthol, yn cymryd amser i'w weithredu. Serch hynny, mae Cymru'r Dyfodol yn parhau i fod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol, gan gynnig y cyd-destun rhanbarthol, y canlyniadau a'r sail bolisi angenrheidiol ar gyfer eu paratoi.

Er nad oes Cynlluniau Datblygu Strategol wedi'u mabwysiadu hyd yma, ceir arwyddion calonogol. Mae Cytundebau Cyflawni yn mynd rhagddynt, ac mae'r broses o fabwysiadu **Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol**³⁵ ar draws y pedwar rhanbarth yn dangos bod cydlynw ar lefel ranbarthol yn gyraeddadwy. Er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau hysbys, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu mentrau ariannol a arweinir gan adnoddau i gefnogi cyflawni Cynlluniau Datblygu Strategol a chyfrifoldebau swyddogaethau cynllunio ehangach sydd angen amser i aeddfedu. Mae'n hanfodol bod Awdurdodau Lleol yn cadw'r momentwm cydweithredol hwn i wireddu'r buddion a ddaw yn sgil Cymru fwy cysylltiedig ac mae Cymru'r Dyfodol yn parhau i ddarparu'r fframwaith angenrheidiol. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn parhau i chwarae rôl ganolog wrth lywio datblygiadau a phenderfyniadau, gan gynnwys lle nad yw Cynlluniau Datblygu Strategol neu Gynlluniau Datblygu Lleol cyfredol yn eu lle ar hyn o bryd.

³⁰ [Deddf y Gymraeg ac Addysg \(Cymru\) 2025](#)

³¹ [Cymraeg 2050: Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2025 i 2026](#)

³² [Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg \(2024\)](#)

³³ [Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar Gynllunio Gwlad a Thref \(2025\)](#)

³⁴ [Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar Gynllunio Gwlad a Thref \(24 Chwefror 2026\) | LLYW. CYMRAEG](#)

³⁵ [Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol: gwella teithio yn eich ardal chi](#)

Ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru, mae Cymru'r Dyfodol yn darparu mecanwaith cadarn ar gyfer hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru, gan gefnogi amcanion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**. Mae'r system gynllunio yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod ystyriaethau diwylliannol ac ieithyddol yn cael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau ar ddefnydd tir a datblygu. Er bod y dangosyddion cyfredol yn adlewyrchu darlun cymysg o gynnydd, mae'n rhy gynnar yng nghyfnod 20 mlynedd y cynllun i werthuso ei effaith hirdymor. Bydd cadw ffocws a pharhau i gyd-fynd a pholisïau iaith a diwylliant ehangach yn allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant dros gyfnod y cynllun.

3.0 Cwestiwn 2: A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi datgarboneiddio?

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**³⁶ yn gosod y fframwaith ar gyfer Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'n gosod targed uchelgeisiol i gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050, gydag unrhyw allyriadau gweddilliol yn cael eu cydbwysu trwy gael gwared ar garbon deuocsid o'r atmosffer. Mae cyllidebau carbon interim wedi'u gosod ar gyfer 2030 a 2040 gan siapio'r llwybr tuag at y targed sero net.

Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod rôl allweddol y system gynllunio wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ddatgarboneiddio, hyrwyddo teithio carbon isel a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Un ystyriaeth ar gyfer adolygu'r adroddiad yw rôl uniongyrchol ac anuniongyrchol Cymru'r Dyfodol wrth gyflawni'r targedau hyn.

3.1 ALLYRIADAU NWYON Tŷ GWYDR

Roedd **Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel**³⁷ yn gosod y strategaeth ar gyfer cyflawni cyllideb garbon gyntaf Cymru (2016-20) ar ostyngiad o 23% ar gyfartaledd yn erbyn y flwyddyn sylfaen, sef 1990. Yn 2022, cadarnhawyd bod y targed interim wedi cael ei orgyrraedd, wedi'i ddylanwadu'n sylweddol gan effaith y pandemig byd-eang ar allyriadau yn 2020.

Roedd **Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 (2021-25)**³⁸ yn gosod targed o ostyngiad cyfartalog o 37% o leiaf. Roedd yn cydnabod her a brys newid yn yr hinsawdd a gosododd y strategaeth ar gyfer cyflawni'r targed a osodwyd. Hyd yn hyn, mae Cymru ar y trywydd iawn, gydag allyriadau yn gostwng 38% rhwng 2023 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ddata swyddogol ar ei chyfer) a'r flwyddyn sylfaen, 1990³⁹. Mae **Adroddiad Llesiant Cymru (2025)**⁴⁰ yn adrodd, yn 2023, amcangyfrifwyd bod yr allyriadau a ryddhawyd i'r atmosffer yn uniongyrchol o Gymru (a elwir yn allyriadau tiriogaethol) yn gyfanswm o 34.1 miliwn tonnell o garbon deuocsid cyfwerth (MtCO₂e). Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 6% ers 2022. Mae'r gostyngiad rhwng 2022 a 2023 yn parhau â thuedd ddiweddar o ostyngiadau mwy sylweddol, gyda gostyngiad cyffredinol o 29% rhwng 2016 a 2023.

*Graff 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru (1990 – 2023)*⁴¹



³⁶ [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)

³⁷ [Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel \(2019\)](#)

³⁸ [Ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel Cymru Gyfan \(2021-2025\)](#)

³⁹ [Cynnydd o ran lleihau allyriadau - adroddiad 2025 i'r Senedd - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd](#)


⁴⁰ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

⁴¹ [Dangosydd Cenedlaethol 41](#)

Er mai dim ond hyd at 2020 y mae'r ffigurau diweddaraf ar gael, bu gostyngiad parhaus mewn allyriadau sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan aelwydydd Cymru ers 2001⁴². Gostyngodd yr allyriadau o 40.0 MtCO₂e yn 2001 i 25.0 MtCO₂e yn 2020. Bydd cynnydd yn erbyn y dangosydd hwn yn datblygu dros amser wrth i fwy o ddata ddod ar gael ac wrth barhau i fonitro cynnydd Cymru'r Dyfodol.

Yn ogystal, mae'r dangosydd cenedlaethol ar gyfer nitrogen deuocsid (NO₂) yn dangos bod y lefelau crynodiad cyfartalog y mae pobl yn agored iddynt wedi bod yn gostwng dros y degawd diwethaf. Mae **Adroddiad Llesiant Cymru (2025)**⁴³ yn tynnu sylw at y ffaith bod y crynodiad cyfartalog wedi gostwng i 7 µg/m³ yn 2020 a 2021 ar ôl cyfnod o sefydlogrwydd cymharol rhwng 2017 a 2019 (tua 9 µg/m³), gan gynyddu ychydig i 8 µg/m³ yn 2022 cyn dychwelyd i 7 µg/m³ yn 2023. Mae crynodiadau cyfartalog deunydd gronynnol (PM₁₀ a PM_{2.5}) y mae pobl yn agored iddynt hefyd wedi gostwng ers 2021.

Graff 3: Lefelau llygredd Nitrogen Deuocsid (NO₂) yn yr aer⁴⁴



Nod papur trafod diweddar Llywodraeth Cymru, **Galluogi Pobl Cymru i Bontio i Sero Net yn 2026-2030 a thu hwnt, ac elwa arno**⁴⁵ yw llywio ac ysgogi trafodaeth ynghylch camau nesaf taith Cymru tuag at sero net. Bydd adborth o'r ymgysylltiad cysylltiedig yn llywio **Cyllideb Garbon 3 (2026-2030)** y bwriedir iddi gael ei chyhoeddi yn 2026⁴⁶. Mae'r papur yn tynnu sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r datgarboneiddio a welwyd yng Nghymru hyd yma wedi'i gyflawni gan y sectorau pŵer a diwydiannol. Gyda chyfleoedd yn y sectorau hyn eisoes wedi'u cymryd i raddau helaeth, neu ar y gweill, mae angen gostyngiadau mwy sylweddol mewn sectorau eraill gan gynnwys trafnidiaeth, adeiladau, defnydd tir ac amaethyddiaeth. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan **Adroddiad Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru**⁴⁷ y Pwyllgor Newid Hinsawdd sy'n awgrymu y bydd llwybrau cost-effeithiol, tymor byr, sero net cyson yn y deng mlynedd nesaf yn cael eu cyflawni fwyfwy mewn meysydd sy'n croestorri â bywyd bob dydd i'r mwyafrif o bobl yng Nghymru. Er bod Cymru'r Dyfodol yn parhau i ddarparu fframwaith cynllunio i gynnal cynnydd a chefnogaeth

⁴² [Dangosydd Cenedlaethol 42](#)

⁴³ [Llesiant Cymru 2025 | LLYW.CYMRU](#)

⁴⁴ [Dangosydd Cenedlaethol 4](#)

⁴⁵ [Galluogi Pobl Cymru i Bontio i Sero Net yn 2026-2030 a thu hwnt, ac elwa arno \(2025\)](#)

⁴⁶ [Targedau newid yn yr hinsawdd a chyllidebau carbon | LLYW. CYMRU](#)

⁴⁷ [Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd \(2025\)](#)

wrth gyrraedd y targedau a osodwyd, bydd monitro parhaus a chyd-fynd â blaenoriaethau a pholisi datgarboneiddio ehangach yn allweddol.

3.2 BYW YN GYNALIADWY

3.2.1 Defnydd Ynni a Gwastraff

Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn annog cynaliadwyedd, defnydd effeithlon o adnoddau ac yn cefnogi egwyddorion economi gylchol sy'n cyfrannu tuag at gyrraedd targedau datgarboneiddio.

Mae **Arolwg Cenedlaethol Cymru Ebrill 2024-Mawrth 2025**⁴⁸ yn adrodd bod 73% o'r cyfranogwyr wedi lleihau eu defnydd o ynni gartref, yn debyg i lefelau 2022-23, a chynnydd o'i gymharu â 62% yn 2021-2022⁴⁹.

Ar ben hynny, er gwaethaf arafu diweddar, bu gostyngiad yn faint o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person ers 2014⁵⁰. Cynhyrchwyd 209kg o wastraff fesul person yn 2014, o'i gymharu â 177kg yn 2020. Yn 2021 a 2022 cynyddodd y ffigurau yn ystod pandemig Covid, er bod data ar gyfer 2024 yn dangos gostyngiad i 168kg⁵¹.

3.2.2 Stoc Dai Effeithlon o ran Ynni

Mae'r system gynllunio yn cefnogi datblygiadau newydd sy'n perfformio'n dda o ran ynni, gan gefnogi targedau datgarboneiddio a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r argyfwng hinsawdd. Nid yw'r dangosydd cenedlaethol ar ganran yr anheddau sydd â pherfformiad ynni digonol wedi'i ddiweddarau ers 2017-18⁵². Fodd bynnag, mae dadansoddiad o ddata **Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC)** gan Lywodraeth Cymru yn adrodd gwelliant cyffredinol o ran effeithlonrwydd ynni cartrefi a aseswyd rhwng 2015 a 2024. Yn 2015, cyflawnodd 34.4% o gartrefi **Sgôr Effeithlonrwydd Ynni (EER)** o A, B neu C, o'i gymharu â 54.1% yn 2024⁵³.

Mae ffigurau'r SYG ar gyfer 2024 hefyd yn adrodd bod anheddau newydd yng Nghymru ar gyfartaledd yn fwy effeithlon o ran ynni nag anheddau presennol. Mae sgoriau EPC canolrif yn amrywio o 61 i 72 ar gyfer anheddau presennol gyda sgôr EPC canolrif ar gyfer anheddau newydd yn amrywio rhwng 79 ac 84 ar gyfer pob deiliadaeth⁵⁴. Cartrefi rhent cymdeithasol oedd â'r sgôr effeithlonrwydd ynni canolrif uchaf o wahanol fathau o ddeiliadaeth o'i gymharu â chartrefi rhent preifat a chartrefi sy'n eiddo i berchen-feddiannwyr. Mae hyn yn amlygu ymdrechion Llywodraeth Cymru i gefnogi cartrefi ynni-effeithlon ar gyfer aelwydydd incwm is.

Disgwyli'r i bympiau gwres o'r aer ddod yn un o brif ffynonellau technoleg gwresogi domestig wrth i Gymru geisio symud oddi wrth danwyddau ffosil tuag at opsiynau carbon isel a sero net. Bydd pypiau gwres o'r aer yn magu gwytnwch a diogelwch ynni Cymru ac yn darparu systemau gwresogi mwy effeithlon i ddefnyddwyr. Yn 2025, er mwyn helpu i hyrwyddo'r broses o ddefnyddio pypiau gwres o'r aer mewn cartrefi ledled Cymru a helpu i gyflawni amcanion carbon isel, adolygwyd Hawliau Datblygu a Ganiateir yn ymwneud â phypiau

⁴⁸ [Prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁴⁹ [Prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁵⁰ [Dangosydd Cenedlaethol 15](#)

⁵¹ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

⁵² [Dangosydd Cenedlaethol 33](#)

⁵³ [Dadansoddiad o ddata Tystysgrifau Perfformiad Ynni \(2025\)](#)

⁵⁴ [Tai sy'n effeithlon o ran ynni yng Nghymru a Lloegr \(2024\) - Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

gwres o'r aer ac roeddent yn destun ymgynghori⁵⁵. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gallai newidiadau arfaethedig i Hawliau Datblygu a Ganiateir er mwyn cynyddu hyblygrwydd wrth leoli pŷmpiau gwres o'r aer gynnig buddion posibl o ran annog pobl i fabwysiadu technolegau carbon isel mewn cartrefi ledled Cymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion pŷmpiau gwres o'r aer yn ystod cam cyntaf cyflwyno Hawliau Datblygu a Ganiateir, yn amodol ar yr ystyriaethau a amlinellir yn yr adroddiad cryno⁵⁶

3.3 TRAFNIDIAETH

3.3.1 Strategaeth Drafnidiaeth

Mae **Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)**⁵⁷ yn strategaeth 20 mlynedd ar gyfer llunio'r system drafnidiaeth yng Nghymru. Mae'n gosod Cymru ar lwybr i ddatgarboneiddio ei system drafnidiaeth, gan roi blaenoriaeth i ateb y galw am deithio drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau modur preifat yn unol â'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy. Mae Cymru'r Dyfodol, ochr yn ochr â **Pholisi Cynllunio Cymru**, yn cefnogi rhyngweithio rhwng defnydd tir a chynllunio trafndiaeth a'r defnydd o'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy wrth gynllunio datblygiadau newydd.

Yn 2023, cyhoeddwyd y **Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (2022-27)**⁵⁸ yn nodi sut y bydd y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a osodwyd gan strategaeth **Llwybr Newydd** yn cael eu cyflawni. Mae'r **Cynllun** yn tynnu sylw at fentrau allweddol i gyflawni sawl amcan, gan gynnwys cynaliadwyedd, hygyrchedd a thwf economaidd. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys cynhyrchu **Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol**, buddsoddi mewn prosiectau seilwaith allweddol a throsglwyddo i dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy.

Yn ddiweddar, cyflwynwyd **Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol**⁵⁹ gan **Gyd-bwyllgorau Corfforaethol** a'u mabwysiadu gan bob un o'r 4 rhanbarth. Bydd rhaglen strategol gyflawn ar gyfer trafndiaeth yng Nghymru ar lefel ranbarthol yn helpu i ddangos pa mor arwyddocaol yw cynllunio gofodol i gysylltu Cymru'n gynaliadwy ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer mwy o waith rhanbarthol. Ym mis Mawrth 2025, cyflwynodd Llywodraeth Cymru hefyd ddeddfwriaeth nodedig i drawsnewid teithio ar fysiau yng Nghymru. Mae'r **Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)**⁶⁰ yn rhoi bysiau yn ôl o dan reolaeth gyhoeddus, gan roi'r adnoddau i'r Llywodraeth ddylunio rhwydwaith mwy effeithlon, dibynadwy ac integredig sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion cymunedau yn y lle cyntaf, gan hefyd gefnogi nodau datgarboneiddio Cymru⁶¹.

Mae llwyddiant wrth newid dulliau teithio o geir preifat i drafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol yn allweddol er mwyn cyflawni targedau datgarboneiddio. Adroddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ym mis Mai 2025⁶² fod y trawsnewidiad i drafnidiaeth drydan a'r cynnydd mewn pwyntiau gwefru cerbydau hefyd yn chwarae rhan sylweddol. Yn 2025, roedd y newidiadau arfaethedig i Hawliau Datblygu a Ganiateir mewn perthynas â gwefrwyr Cerbydau Trydan yn destun ymgynghoriad, a gwnaed ymrwymiad i fwrw ymlaen gyda newidiadau i'r Hawliau

⁵⁵ [Newidiadau i Hawliau Datblygu a Ganiateir: Dogfen Ymgynghori](#)

⁵⁶ [Newidiadau i Hawliau Datblygu a Ganiateir: crynodeb o ymatebion](#)

⁵⁷ [Llwybr Newydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021: strategaeth lawn](#)

⁵⁸ [Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027](#)

⁵⁹ [Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol](#)

⁶⁰ [Bil Gwasanaethau Bysiau \(Cymru\): Trosolwg](#)

⁶¹ [Adroddiad Blyneddol Llywodraeth Cymru 2023-2024](#)

⁶² [Wales' Fourth Carbon Budget - Climate Change Committee](#)

Datblygu a Ganiateir fel rhan o'r ail gam gweithredu, i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn unol â blaenoriaethau polisi.

3.3.2 Dulliau Teithio

Ychydig iawn o newid sydd wedi bod yng nghyfran trigolion Cymru sydd fel arfer yn defnyddio pob math o ddulliau teithio dros y degawd diwethaf. Yn 2023⁶³, roedd 81% o gymudwyr yng Nghymru yn defnyddio car fel eu dull arferol o deithio i'r gwaith. Cafwyd hefyd cyfran is o ymatebwyr yn **Arolwg Cenedlaethol Cymru (2024-25)**⁶⁴ (33%) a oedd wedi osgoi teithio mewn car neu wedi lleihau nifer y teithiau mewn car o'i gymharu â 40% yn 2022-23.

Mae'r **Bwletin Defnydd o Orsafoedd Rheilffordd yng Nghymru (2022-23)**⁶⁵ yn cofnodi bod y defnydd o orsafoedd rheilffyrdd wedi cynyddu 31.9% i 38.3 miliwn o 29.0 miliwn yn y flwyddyn flaenorol (2021-22). Er bod lefelau defnydd gorsafoedd rheilffordd cyffredinol wedi cynyddu o'i gymharu â 2021-22, nid ydynt wedi dychwelyd hyd yn hyn i'r lefelau a welwyd cyn pandemig COVID-19 lle cofnodwyd 50.4 miliwn o fynediadau ac ymadawiadau yn ystod 2019-20.

3.3.3 Gweithio gartref

Mae **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2021)**⁶⁶ yn tynnu sylw at y ffaith bod pandemig COVID-19 wedi cyflymu'r duedd tuag at weithio o bell a gweithio gartref ac mae'n debygol y bydd goblygiadau hirdymor o safbwynt patrymau teithio. Datgelodd data Cyfrifiad 2021 fod 25.6% o bobl yn gweithio gartref yn bennaf⁶⁷. Mae **Arolwg Cenedlaethol Cymru (2024-25)**⁶⁸ yn adrodd bod 42% o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn gweithio o bell am ryw faint o'u horiau gwaith neu'n gyfan gwbl, o'i gymharu â 34% yn 2022-23.

3.3.4 Teithio Llesol

Yn 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **Cynllun Cyflawni Teithio Llesol (2024-27)**⁶⁹ sy'n anelu at gynyddu newid mewn dulliau teithio drwy wneud teithio llesol yn haws, yn fwy deniadol ac yn fwy cynhwysol. Mae'r cynllun yn cynnwys dull cyfannol, seiliedig ar le, gwella Hwb Teithio Llesol Trafnidiaeth Cymru a sefydlu cynlluniau braenaru i ddatblygu modelau a strategaethau cyflawni cydweithredol.

Er gwaethaf ymrwymadau deddfwriaethol a pholisi cryf i deithio llesol, nid yw'r ffigurau diweddar yn dangos llawer o newid yng Nghymru. Mae **Arolwg Cenedlaethol Cymru (2024-25)**⁷⁰ yn adrodd bod 52% o'r ymatebwyr wedi cerdded am o leiaf 10 munud neu fwy i gyrraedd rhywle o leiaf unwaith yr wythnos, cyfran debyg i 2021-22 a 2022-23. Yn 2024-25, teithiodd 7% o bobl ar feic o leiaf unwaith yr wythnos, cyfran debyg i 2022-23, ond yn uwch na'r 5% a gofnodwyd yn 2021-22.

⁶³ [Llesiant Cymru 2025](#)

⁶⁴ [Prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2024 i Fawrth 2025](#)

⁶⁵ [Defnydd gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru \(2022-23\)](#)

⁶⁶ [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru \(2021\)](#)


⁶⁷ [Teithio i'r gwaith, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

⁶⁸ [Arolwg Cenedlaethol Cymru \(2024-25\)](#)

⁶⁹ [Cynllun cyflawni teithio llesol 2024 i 2027](#)

⁷⁰ [Arolwg Cenedlaethol Cymru \(2024-25\)](#)

Graff 4: Cyfran y bobl a gerddodd neu a deithiodd ar feic, 2021-22 i 2024-25⁷¹



3.4 CRYNODEB O'R CASGLIADAU

Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod y rôl hanfodol, drawsbynciol y mae cynllunio yn ei chwarae wrth hyrwyddo datblygu carbon isel a rheoli adnoddau cynaliadwy, gan roi pwyslais cryf ar ddatgarboneiddio ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd.

Mae cynnydd o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaethol cyffredinol wedi bod yn nodedig, gyda Chymru yn llwyddo i ragori ar ei chyllideb garbon gyntaf ac yn parhau i fod ar y trywydd iawn ar gyfer yr ail. Ceir hefyd arwyddion cadarnhaol mewn perthynas ag ymddygiadau cynaliadwy a gwelliannau mewn cartrefi sy'n effeithlon o ran ynni. Gwelwyd cynnydd hefyd mewn cyflenwi ynni adnewyddadwy sy'n cael ei archwilio ymhellach yn Adran 4.0.

Fodd bynnag, bydd angen newid sylweddol o ran uchelgais a chyflawni er mwyn cyflawni'r drydedd a'r bedwaredd gyllideb garbon (2026-2030 a 2031-2035). Bydd angen y newid sylweddol hwn hefyd er mwyn gwireddu'r nifer o fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â mynd ar drywydd economi di-allyriadau. Mae'r rhan fwyaf o ostyngiadau mewn allyriadau a welwyd hyd yma wedi bod yn y sectorau diwydiannol a phŵer. Mae'n debygol y bydd cynnydd yn y ffocws ar gynnydd mewn meysydd allweddol, megis teithio, tai, amaethyddiaeth a defnydd tir, a lle bydd gofyn i ddinasyddion Cymru wneud dewisiadau gwahanol, megis y math o geir maent yn berchen arnynt neu sut maen nhw'n gwresogi eu cartrefi.

Er gwaethaf ymrwymïadau deddfwriaethol a pholisi cadarn ynghylch teithio cynaliadwy a llesol, nid oes unrhyw newid arwyddocaol wedi bod yng nghyfran y teithiau a wneir trwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus, ac mae'r defnydd o gar preifat yn parhau i fod yn uchel iawn.

Mae mentrau a amlinellir yn **Llwybr Newydd**, gweithredu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, buddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd, a deddfwriaeth nodedig i ddiwygio bysiau, yn fentrau allweddol sydd wedi'u llunio i ysgogi'r symudiad angenrheidiol hwn a lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Er bod sawl ffactor yn cyfrannu at y newid hwn, mae gan y system gynllunio rôl hanfodol wrth leoli datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy a darparu amgylcheddau diogel, deniadol lle gall pobl gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau trwy gerdded a beicio. Gallai archwilio cyfleoedd o fewn Cymru'r Dyfodol i ehangu meini prawf creu lleoedd i gynnwys gweithredu safonau

⁷¹[Prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

trafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn sicrhau bod gorsafoedd trên ac arosfannau bysiau yn hygyrch ac yn gynhwysol i bob cymuned mewn amgylchedd diogel a deniadol, fod yn agwedd i'w hystyried ymhellach.

Mae Cymru'r Dyfodol yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi cadarn ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ddatgarboneiddio a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol. Mae'n darparu'r cwrdd a'r uchelgais angenrheidiol i lywio penderfyniadau cynllunio gofodol sy'n ymwneud â datgarboneiddio a gefnogir gan **Bolisi Cynllunio Cymru**. Fodd bynnag, bydd mwy o uchelgais a darpariaeth, ynghyd â pharhau i fonitro cyfeiriad polisiâu datgarboneiddio ehangach yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Cymru'r Dyfodol yn parhau i gyfrannu tuag at dargedau sero net.

4.0 Cwestiwn 3: A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi'r gwaith o ddarparu ynni adnewyddadwy?


Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gynhyrchiant trydan adnewyddadwy fod yn cyfateb i 70% o'r defnydd o drydan erbyn 2030 a 100% erbyn 2035. Yn 2023, cynyddwyd y targed perchnogaeth leol ar gyfer ynni adnewyddadwy i 1.5 GW erbyn 2035⁷².

Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys fframwaith ynni adnewyddadwy cadarnhaol, gan gefnogi nodau Llywodraeth Cymru gyda Pholisïau 17 a 18 yn darparu polisïau'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer pennu ceisiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw hefyd yn cael eu nodi lle mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr. Mae ystyried rôl Cymru'r Dyfodol o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy yn fesur allweddol ar gyfer cynnydd.

4.1 CYNHYRCHU YNNI

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad **Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2023 (2025)**⁷³ ar 3 Mawrth, 2025, sy'n cynnig adolygiad cynhwysfawr o gynhyrchu a defnyddio ynni ledled Cymru. Mae'n cadarnhau bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at dargedau ynni Cymru gyda'r adroddiad yn tynnu sylw at yr amcangyfrif bod cynhyrchu trydan adnewyddadwy yng Nghymru yn cyfateb i 53% o'i defnydd o drydan, gan gynnwys colledion. Yn 2023 roedd cyfanswm o 3,663 MW o gapasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru.

Graff 5: Capasiti Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy, 2012 i 2023⁷⁴



Yn 2023, gosodwyd 109 MW o gapasiti trydan adnewyddadwy newydd, sy'n gynydd sylweddol o 38 MW yn 2022 a'r cynnydd blynyddol ail uchaf ers 2019. Cyrhaeddodd offer ynni gwres adnewyddadwy a osodwyd yng Nghymru 869 MW yn 2023, gan ddod â chyfanswm y capasiti gwres a thrydan a osodwyd i 4,532 MW⁷⁵.

Yn 2023, gwelodd pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru gynydd yng nghyfanswm eu capasiti ynni adnewyddadwy o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol⁷⁶. Gwelodd

⁷² [Adroddiad Defnydd Ynni yng Nghymru \(Trydydd Argraffiad\)](#)

⁷³ [Defnydd o ynni yng Nghymru 2023](#)

⁷⁴ [Llesiant Cymru 2025 | LLYW.CYMRU](#)

⁷⁵ [Dangosydd Cenedlaethol 12](#)

⁷⁶ [Defnydd o ynni yng Nghymru 2023](#)

dros hanner yr awdurdodau lleol gynnydd o 5% neu fwy mewn capasiti ynni adnewyddadwy, gyda thri awdurdod yn cyflawni cynnydd o 10% neu fwy. Mae'r cynnydd hwn yn nodi gwelliant o'r ddwy flynedd flaenorol pan brofodd dim ond tri awdurdod lleol gynnydd mewn capasiti adnewyddadwy dros 5%. Fel yn y flwyddyn flaenorol, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn capasiti ynni adnewyddadwy yn Abertawe, gyda chynnydd o 14% yn y ganran o gapasiti a osodwyd. Gwelwyd y cynnydd gwerth mwyaf o ran capasiti a osodwyd ym Mhowys, gyda 23 MW ychwanegol wedi'i osod yn 2023.

4.2 RHEOLI DATBLYGIAD

4.2.1 Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol


Mae cynigion ar gyfer datblygu ynni ar raddfa fawr yn cael eu hystyried yn **Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** ac yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru. Mae cynigion islaw'r trothwy **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** yn cael eu pennu gan awdurdodau cynllunio lleol. Fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, rhaid penderfynu ar geisiadau **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** yn unol â Chymru'r Dyfodol gan gynnwys:

- Pob safle ynni gwynt ar y tir sy'n cynhyrchu 10 megawat neu fwy.
- Safleoedd cynhyrchu ynni eraill gyda phŵer cynhyrchu rhwng 10 a 350 megawat.

Ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, mae newidiadau wedi'u cyflwyno o fewn y system gynllunio i gefnogi cydsynio a chyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy⁷⁷. Mae hyn wedi cynnwys galluogi dirprwyo penderfyniadau ar gyfer prosiectau ar raddfa fach (hyd at 50MW) i Arolygwyr PEDW a rhoi hwb i adnoddau ar draws y system gynllunio a chydsynio.

Mae nifer y ceisiadau **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** a bennwyd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae amser penderfynu cyfartalog wedi lleihau. Yn 2025 penderfynwyd ar 13 o geisiadau gyda gostyngiad o 6 wythnos yn yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu. Mae Fferm Solar Alaw Môn (160MW), Fferm Wynt Coedwig Alwen (60MW) a Pharc Ynni Twyn Hywel (92MW) a gymeradwywyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ymhlith y mwyaf ac maent ar fin cyfrannu capasiti ynni adnewyddadwy sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.

Graff 6: Ceisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Bennwyd (Ffynhonnell; PEDW)



⁷⁷ [Datganiad Ysgrifenedig: Cyflymu'r broses gynllunio \(20 Ionawr 2026\) | LLYW.CYMRU](#)

4.2.2 Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu⁷⁸

Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu ar gyfer datblygiadau gwynt lle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu ar gyfer yr effaith debygol ar y dirwedd ac wedi dod i'r casgliad eu bod yn gallu cynnal datblygiad mewn ffordd dderbyniol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiad i nodi'r ardaloedd hyn er mwyn darparu sicrwydd, lle gallai datblygiadau fod yn dderbyniol mewn egwyddor. Ceir rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar raddfa fawr yn yr ardaloedd hyn, gan ddibynnu ar feini prawf penodol a fanylir ym Mholisi 17 ac 18 Cymru'r Dyfodol.

Mae cynigion wedi cael eu cyflwyno o fewn ffiniau'r Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu, fodd bynnag mae rhai o'r ceisiadau wedi cael eu hyrwyddo gan ddatblygwyr y tu allan i'r ardaloedd hyn. Gweler y tabl isod sy'n darparu trosolwg lefel-uchel o nifer y ceisiadau cynllunio a barnau cwmpasu ers cyhoeddi Cynllun Cymru Dyfodol sy'n cynnig datblygiad gwynt o fewn ac y tu allan i'r ardaloedd sydd wedi'u gwerthuso ymlaen llaw. Er bod y fframwaith polisi yn caniatáu hyn, yn amodol ar y meini prawf a osodwyd, mae angen ystyriaeth bellach ynghylch pam nad yw mwy o gynigion yn cael eu hyrwyddo o fewn yr Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu. Hefyd, a oes cyfleoedd i ddatblygu'r ffocws gofodol y mae'r Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu yn ceisio eu darparu ymhellach. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael ymhellach â chymhlethdod gofodol prosiectau a darparu asesiad pellach o ble y gellir eu datblygu gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf. Gallai hyn fod trwy adeiladu ar y gwaith cynllunio strategol sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd gan NESO ar lefel y DU ac a drafodir yn adran 4.4. Er mwyn darparu mwy o sicrwydd i ddatblygwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, mae'n bosibl y byddai modd ehangu'r gwaith o gyfeirio prosiectau carbon isel yn ofodol i gynnwys technolegau ynni eraill.

Tabl 1: Ceisiadau cynllunio a Barnau Cwmpasu i gymharu a Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu

Statws	O fewn Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu	Tu allan i Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu	Cyfanswm
Wedi ei ganiatau	7	2	9
Wedi ei gyflwyno	3	2	5
Barnau Cwmpasu a gyhoeddwyd	10	13	23
Cyfanswm	20	17	37

4.2.3 Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

Mae'r **Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024**⁷⁹ newydd yn darparu proses symlach ar gyfer caniatáu Prosiectau Seilwaith Sylweddol yng Nghymru. Daeth i rym o 15 Rhagfyr 2025, gan ddisodli Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a chyfundrefnau cydsynio presennol eraill sy'n dangos ymrwymiad y Llywodraeth i benderfynu ar seilwaith ar raddfa fawr mewn modd effeithiol ac effeithlon gan ddefnyddio proses gydsynio fodern. Byddai hefyd yn bosibl rhoi ystyriaeth bellach i ehangu polisiâu Cymru'r Dyfodol i ddarparu cyfeiriad a meini prawf gofodol pellach i gefnogi datblygwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau drwy'r gyfundrefn Prosiectau Seilwaith Sylweddol newydd.

4.2.4 Ystyriaethau Amgylcheddol

⁷⁸[Polisi 17 – Ardaloedd wedi'u rhag-asesu ar gyfer ynni'r gwynt](#)

⁷⁹[Deddf Seilwaith \(Cymru\) 2024](#)

Er bod darparu seilwaith carbon isel yn hanfodol ar gyfer cyflawni targedau datgarboneiddio, rhaid cydbwysu hyn gyda gwarchod a chryfhau'r amgylchedd naturiol. Mae sefyllfaoedd wedi codi lle bo penderfyniadau'n gofyn am ystyriaeth ofalus o effeithiau cynigion ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy mewn amgylcheddau sensitif, gan gynnwys mawndir a thir gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV).

Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu fframwaith i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth gydbwysu'r blaenoriaethau hyn sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae Polisi Cymru'r Dyfodol 17 yn pwysleisio bod yn rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau roi pwyslais sylweddol ar yr angen i fodloni ymrwymïadau rhyngwladol Cymru a'u targedu i gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030 er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn unol â meini prawf penodol. Mae hefyd yn nodi y dylai cynigion ddangos na fyddant yn cael effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd, a dylent ddisgrifio'r buddion net y bydd y cynllun yn eu cyflwyno o ran gwelliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gymunedau lleol.

Mae Polisi 18 yn gosod meini prawf gan gynnwys nad oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar safleoedd dynodedig statudol cenedlaethol ar gyfer cadwraeth natur (a'r nodweddion y maent wedi'u dynodi ar eu cyfer), cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig. Mae Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys polisi mwy diweddar ar safleoedd dynodedig a'r rhai sy'n cynnwys rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig nad oes modd eu disodli, ac mae'n nodi bod datblygiad mewn lleoliadau o'r fath yn annerbyniol fel mater o egwyddor. Mae safleoedd o'r fath yn ganolog i rwydweithiau ecolegol gwydn, ac mae'n rhaid gwarchod, cynnal a gwella eu rôl a'r gwasanaethau ecosystem maen nhw'n eu darparu, a'u diogelu rhag datblygiad. Gellir rhoi ystyriaeth bellach i rôl Cymru'r Dyfodol yn y cyd-destun hwn.

4.3 YNNI LLEOL

Mae targed perchnogaeth leol blaenorol Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy o 1 GW erbyn 2030 bron wedi'i gyrraedd. Gyda 0.9 GW o gapasiti wedi'i osod, mae Cymru hefyd wedi cyrraedd 60% o'r ffordd tuag at ei tharged newydd o 1.5 GW erbyn 2035. Mae **Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2023 (2025)**⁸⁰ yn adrodd bod dwywaith cymaint o brosiectau ynni adnewyddadwy lleol wedi'u gosod yn 2023 o'i gymharu â 2022, yn bennaf oherwydd cynnydd cyflym yn y defnydd o systemau solar ffotofoltäig domestig. Yn 2023, comisiynwyd 79 MW o gapasiti a oedd yn eiddo lleol, gan gynnwys 78 MW o gapasiti trydanol o osodiadau solar ffotofoltäig ac 1 MW o gapasiti gwres, yn cynnwys 0.8 MW o fïomas a tua 0.1 MW o osodiadau solar thermol. Mae bron i ddwy ran o dair o'r holl gapasiti lleol yn dod o ffynonellau cynhyrchu trydan, fel solar ffotofoltäig a gwynt ar y tir. Amcangyfrifir bellach bod gan Gymru fwy na 89,500 o brosiectau trydan a gwres adnewyddadwy lleol, ac mae 90% ohonynt yn cael eu hystyried yn brosiectau domestig. Mae'r brosiectau domestig hyn fel arfer yn systemau solar ffotofoltäig a biomas ar raddfa fach, ac felly maent yn gyfrifol am 37% yn unig o'r capasiti sy'n eiddo lleol.

Mae rhaglen **Ynni Cymru**⁸¹ Llywodraeth Cymru yn dangos ymrwymiad cryf i barhau i feithrin ynni adnewyddadwy lleol a chyflymu'r broses o ddefnyddio Systemau Ynni Lleol Clyfar ledled y wlad. Nod y fenter, a sefydlwyd yn 2023, yw sicrhau bod buddion economaidd a chymdeithasol cynhyrchu ynni yn cael eu cadw o fewn cymunedau Cymru, a thrwy hynny, hwyluso trawsnewidiad cyfiawn i sero net. Tanlinellwyd yr ymrwymiad hwn yn benodol yn ystod hydref 2024 gyda lansiad cronfa grant cyfalaf gwerth £10 miliwn ar gyfer sefydliadau'r

⁸⁰ [Defnydd o ynni yng Nghymru 2023](#)

⁸¹ [Ynni Cymru | LLYW.CYMRU](#)

sector cyhoeddus a chymunedol, yn enwedig busnesau bach a chanolig sy'n datblygu prosiectau Systemau Ynni Lleol Clyfar. Mae'r cyllid hwn yn darparu cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer prosiectau sy'n integreiddio asedau ynni amrywiol fel paneli solar, storio ynni mewn batris, a phympiau gwres i wella effeithlonrwydd, lleihau costau ynni (gyda rhai trigolion yn arbed hyd at 50% ar filiau), a gwella gwytnwch ynni lleol ledled Cymru.

Yn ogystal, mae **Cynlluniau Ynni Ardal Leol** yn edrych ar raddfa'r newid angenrheidiol er mwyn cyflawni targedau hinsawdd o fewn ardaloedd Awdurdodau Lleol. Mae'r cynlluniau wedi'u teilwra i nodweddion ac anghenion unigryw pob ardal leol, gan sicrhau bod atebion ynni yn effeithiol ac yn gynaliadwy. Mae Cynlluniau Ynni Ardal Leol bellach wedi cael eu mabwysiadu ym mhob ardal o Gymru.

4.4 YSTYRIAETHAU POLISI SY'N DOD I'R AMLWG

Paratôdd **Deddf Ynni (2023)**⁸² y ffordd ar gyfer creu'r Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol (NESO). Mae'n gweithredu'n annibynnol ar sail model nid er elw, wedi'i drwyddedu gan y **Swyddfa Nwy a Thrydan (OFGEM)**. Ei brif rôl yw darparu cyngor arbenigol a diduedd ar y system ynni ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae hyn yn cynnwys arwain ar y mathau o seilwaith a ffynonellau trydan sy'n angenrheidiol er mwyn cyflymu'r trawsnewidiad o danwyddau ffosil i dechnolegau ynni newydd gan gynnwys ynni adnewyddadwy, ac i wneud hynny'n ddiogel.

4.4.1 Cynllun Ynni Gofodol Strategol


Mae **NESO** yn gyfrifol am greu Cynllun Ynni Gofodol Strategol sy'n gosod trosolwg hirdymor o'r ffynonellau ynni sydd eu hangen er mwyn cyrraedd targedau sero net. Bydd y **Cynllun Ynni Gofodol Strategol** yn asesu ac yn mapio'r lleoliadau gorau posibl ar gyfer cynhyrchu ynni trydan a hydrogen. Bydd hefyd yn nodi capasiti o fewn y parthau ac amseroedd ar gyfer cyflawni ar ôl asesu ffactorau economaidd, technegol ac amgylcheddol. Bydd senarios llwybrau'n cael eu creu, wedi'u llunio i gyflawni sero net yn y DU erbyn 2050 a sefydlu system ynni ddiogel ym Mhrydain. Unwaith y bydd yr holl wybodaeth am yr opsiynau llwybr wedi cael ei gwerthuso, bydd yn cael ei rhannu gyda Gweinidogion Cymru a'r Alban i gasglu eu barn. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net yn dewis llwybr i'w ddefnyddio ar gyfer yr ymgynghoriad **Cynllun Ynni Gofodol Strategol** drafft sydd wedi'i drefnu ar gyfer y cyfnod ar ôl Haf 2026 ar hyn o bryd. Disgwylir i'r **Cynllun Ynni Gofodol Strategol** terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod Hydref 2027.

4.4.2 Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol

Mae'r **Cynllun Ynni Gofodol Strategol** yn cefnogi ac yn gweithio gyda rhaglenni pontio ynni pwysig eraill, gan gynnwys y **Cynllun Ynni Strategol Rhanbarthol**. Bydd **NESO** yn creu Cynlluniau ar draws 11 ardal **Cynllun Ynni Strategol Rhanbarthol** sy'n gosod llwybrau gofodol wedi'u modelu ar gyfer cyflenwad a galw yn y dyfodol ar gyfer y rhanbarthau. Bydd y **Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol** yn cael eu llywio gan ddatblygiad y **Cynllun Ynni Gofodol Strategol**, ac ar hyn o bryd, disgwylir iddynt gael eu creu erbyn diwedd 2028. Mae'r Map isod yn dangos ffiniau'r 2 ardal **Cynllun Ynni Strategol Rhanbarthol** a nodwyd ar gyfer Cymru.

⁸² [Deddf Ynni 2023](#)

Map 1: Ffin Cynllun Ynni Strategol Rhanbarthol Cymru⁸³



4.4.3 Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog

Mae'r **Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog** yn gweithredu fel glasbrint rhwydwaith ar gyfer y wlad, gan fapio'r galw a'r lleoliadau gorau posibl ar gyfer seilwaith trosglwyddo ar y tir ac ar y môr i gefnogi grid ynni datgarbonedig. Bydd hyn yn cael ei lywio gan allbwn y **Cynlluniau Ynni Gofodol Strategol** a'r **Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol**.

4.4.4 Dal a Storio Hydrogen a Charbon

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei adroddiad cynnydd ar leihau allyriadau yng Nghymru⁸⁴. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd 58 argymhelliad i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys argymhelliad i asesu'r potensial ar gyfer cynhyrchu hydrogen ar raddfa fawr yng Nghymru, ac i gydlyn gyda Llywodraeth y DU o ran sut y gallai Cymru gyfrannu orau at gynlluniau hydrogen ledled y DU. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd hefyd yn ystyried bod Dal a Storio Carbon yn chwarae rôl sylweddol wrth ddatgarboneiddio sawl rhan o'r economi, gan gynnwys diwydiant, cyflenwi ynni, a thrafnidiaeth.

Gan gydnabod pwysigrwydd strategol y technolegau hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad a chyhoeddodd y polisïau a ffafrwyd. Bydd monitro cynnydd yn y maes hwn yn bwysig er mwyn sicrhau bod Cymru'r Dyfodol a dogfennau polisi cynllunio cenedlaethol eraill yn darparu'r fframwaith a'r arweiniad i gefnogi penderfyniadau ar gyfer technolegau o'r fath.

⁸³ [Decision on the Regional Energy Strategic Plan Policy Framework](#)

⁸⁴ [Y Pwyllgor Newid Hinsawdd: Adroddiad Cynnydd Lleihau Allyriadau yng Nghymru \(2023\)](#)

4.5 SEILWAITH GRID

Mae'r gallu i gysylltu, trosglwyddo a dosbarthu ynni adnewyddadwy drwy'r grid ynni yn effeithlon ac yn brydlon yn hanfodol er mwyn cyflawni'r targedau ynni a datgarboneiddio allweddol. Mae **Grid Ynni'r Dyfodol i Gymru – Adroddiad Mewnwelediadau (2023)**⁸⁵ ac adroddiad NICW, **Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050 (2023)**⁸⁶, yn tynnu sylw at yr angen am adolygiad strategol o ddosbarthiad y grid trosglwyddo yng Nghymru i hwyluso'r broses o gynhyrchu, storio a dosbarthu ynni adnewyddadwy. Mae'r **Adroddiad Cenedlaethol y Dyfodol (2025)**⁸⁷ hefyd yn tynnu sylw at heriau sylweddol wrth sicrhau bod y system drosglwyddo a dosbarthu yn addas i wasanaethu anghenion ein cymunedau a'n busnesau ar gyfer y dyfodol. Mae'n pwysleisio nid yn unig yr her dechnegol ac amgylcheddol ond hefyd yr heriau cymdeithasol a chostau sy'n ymwneud â'r galwadau cynyddol i osod seilwaith o dan y ddaear lle bo'n bosibl.

Yn 2024, sefydlodd Llywodraeth Cymru y **Grŵp Cyngtori Annibynnol ar Grid Trydan y Dyfodol i Gymru** gyda'r dasg o ddatblygu egwyddorion ar gyfer seilwaith trydan newydd, gan ystyried costau, effaith amgylcheddol, barn y gymuned ac anghenion technegol i gyrraedd targedau sero net. Cyhoeddwyd yr **Adroddiad**⁸⁸ dilynol ym mis Ionawr 2026, gydag argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisi mewn perthynas â seilwaith grid. Oherwydd ei natur ofodol, mae gan Gymru'r Dyfodol y potensial i gefnogi'r gwaith o ddefnyddio seilwaith grid a bydd monitro'r cyfeiriad cenedlaethol yn y maes hwn yn barhaus yn bwysig.

4.6 CRYNODEB O'R CASGLIADAU

Mae cynnydd yn amlwg yn cael ei wneud tuag at dargedau sero net, gyda chynnydd mewn gosod a chynhyrchu ynni adnewyddadwy fel rhan o brosiectau ar raddfa fawr a chymunedol. Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisïau 17 a 18 yn benodol wedi cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a chydysynio ar brosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr. Mae nifer y penderfyniadau dros y blynyddoedd diwethaf trwy'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi cynyddu'n sylweddol, gan ddarparu piblinell o brosiectau i'w cyflawni.

Er bod cynnydd yn cael ei wneud, bydd angen cyflymu'r gwaith o gyflawni cynlluniau a chysylltiadau grid cysylltiedig gan fod disgwyl i'r defnydd o drydan ddyblu erbyn 2050. Wrth i dechnoleg ynni ddatblygu, disgwylir i gapasiti cynlluniau ynni gynyddu, yn ogystal â'u cymhlethdod a'u hamrywiaeth. Bydd cynlluniau strategol NESO hefyd yn darparu cyfeiriad ar lefel y DU ar gyfer prosiectau ynni, ac mae'r gyfundrefn Prosiectau Seilwaith Sylweddol sy'n disodli'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ceisio darparu proses gydsynio effeithiol i gefnogi blaenoriaethau seilwaith cenedlaethol. O ganlyniad, bydd angen i Gymru'r Dyfodol addasu i barhau i ddarparu'r cyfeiriad gofodol a'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Her allweddol i gyflawni mentrau ynni adnewyddadwy yw sicrhau cysylltiad grid hyfyw'n ariannol sy'n gallu trosglwyddo a dosbarthu'n effeithlon ar draws y wlad. Oherwydd ei gyd-destun gofodol, mae gan Gymru'r Dyfodol botensial i fapio a chefnogi'r defnydd o gysylltiadau grid cenedlaethol newydd a'u haddasu i hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

⁸⁵ [Gridiau Ynni'r Dyfodol i Gymru Adroddiad mewnwelediadau \(2023\)](#)

⁸⁶ [Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050 \(2023\)](#)

⁸⁷ [Future-Generations-Report-2025.pdf](#)

⁸⁸ [Grŵp Cyngtori Annibynnol ar Grid Trydan y Dyfodol i Gymru \(2026\)](#)

Yn olaf, er bod cynnydd clir wedi'i wneud o ran cynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy, bydd cydbwyso cynhyrchiant a gwella'r amgylchedd naturiol yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol. Dylid ystyried ymhellach mewn adolygiad yn y dyfodol a oes modd darparu mwy o eglurder i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth gydbwyso blaenoriaethau cenedlaethol, er mwyn symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau a chyflymu'r broses gydsynio yn gyffredinol.

5.0 Cwestiwn 4: A yw Cymru'r Dyfodol wedi helpu i ddiwallu anghenion tai yn y manau cywir?

Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys cyfeiriad gofodol a pholisïau ar gyfer llunio twf lleoedd i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau allweddol yn cael eu darparu yn y lleoliadau mwyaf hygyrch, bod ganddynt gysylltiadau da ar gyfer trafniadaeth gyhoeddus, a'u bod yn cyd-fynd â darpariaeth cartrefi a swyddi. Mae asesu darpariaeth cartrefi newydd ledled Cymru a sut mae Cymru'r Dyfodol yn llunio lleoedd cynaliadwy gyda chyfleusterau a gwasanaethau sy'n hygyrch i bawb yn fesur allweddol o gynnydd.

5.1 TAI

Mae Cymru'r Dyfodol yn rhoi amcan o'r gofynion tai ychwanegol yng Nghymru dros gyfnod y Cynllun hyd at 2039. Mae'r amcangyfrifon yn cynnwys dwy elfen; yr ôl-groniad o anghenion heb eu diwallu a'r anghenion newydd sy'n codi ac yn cael eu cyflwyno yn ôl rhanbarth a chymysgedd deiliadaeth (marchnad fforddiadwy ac agored). Mae'n bwysig nodi nad yw'r amcangyfrifon yn dargedau ac nad ydynt yn ffurfio gofyniad o ran anheddau i Gymru. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon yn darparu rhywfaint o'r dystiolaeth a'r cyd-destun a allai fod yn sylfaen ar gyfer polisi a gofynion tai. Dylid hefyd nodi cyfyngiadau data ar gyfer yr amcangyfrifon. Yn seiliedig ar barhad tueddiadau'r gorffennol a rhagdybiaethau'n cael eu gwireddu, ac er mwyn dangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcangyfrif anghenion tai, cynhyrchwyd ystod o amcangyfrifon. Bydd amrywiaeth hefyd o fewn y rhanbarthau eu hunain.

Mae'r amcangyfrif canolog yn awgrymu bod angen 110,000 o gartrefi dros gyfnod y cynllun 20 mlynedd gyda 7,400 o gartrefi yn ofynnol bob blwyddyn yn ystod y 5 mlynedd gyntaf (2019-24). Mae'r amcangyfrifon anghenion tai hefyd yn dangos y dylai darparu cartrefi fforddiadwy ddod yn ffocws allweddol. Mae'n cynrychioli cyfartaledd o oddeutu 3,500 (48%) o gartrefi fforddiadwy a 3,900 (52%) o gartrefi ar y farchnad bob blwyddyn dros y cyfnod o bum mlynedd.

Roedd **Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog Newid Hinsawdd ar Dai Cymdeithasol yng Nghymru ym mis Mehefin 2021**⁸⁹ hefyd yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu yn y sector cymdeithasol yn ystod tymor y llywodraeth sy'n dod i ben yn 2026.

5.1.1 Darparu Tai

Mae sawl dangosydd sy'n gysylltiedig â pholisi wedi'u nodi yn fframwaith monitro Cymru'r Dyfodol, i lywio asesiad o'r cynnydd. Mae'r rhain yn ymwneud â nifer y cartrefi newydd a ddarperir ledled Cymru a'i rhanbarthau ynghyd â darpariaeth tai fforddiadwy. Mae amrywiaeth o wahanol ffynonellau data yn bodoli y byddai modd eu dadansoddi i fesur y dangosyddion cyflenwi tai dros y cyfnod pum mlynedd hyd yn hyn.

Mae StatsWales yn cofnodi gweithgarwch adeiladu tai newydd (cwblhau a dechrau). Mae'n cadarnhau bod 4,631⁹⁰ o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu yng Nghymru yn 2024-25. Mae hyn yn dilyn tuedd gyffredinol o ostyngiad yn nifer y tai a gwblhawyd dros y 10 mlynedd

⁸⁹ [Datganiad Ysgrifenedig: Tai Cymdeithasol yng Nghymru \(15 Mehefin 2021\) | LLYW.CYMRU](#)

⁹⁰ [Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl awdurdod lleol, deiliadaeth, y math o annedd a nifer yr ystafelloedd gwely | StatsCymru](#)

diwethaf. Roedd gostyngiad hefyd yn nifer y cartrefi newydd a ddechreuwyd, gyda 3,798 o gartrefi rhwng 2024-25 o'i gymharu â 6,224 rhwng 2019-20⁹¹.

Darperir data StatsCymru ar adeiladu tai newydd gyda'r rhybudd bod tangyfrif hysbys yn yr adroddiad:

*"Yng Nghymru, mae tai newydd yn cael eu hadeiladu gan y sector preifat, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yma yn seiliedig ar adroddiadau arolygwyr adeiladu awdurdodau lleol a'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC). Nid **yw'n cynnwys gwybodaeth gan arolygwyr preifat cymeradwy**. Mae hepgor y wybodaeth hon yn golygu bod tangyfrif yn nifer yr anheddau a ddechreuwyd, ond amcangyfrifir bod y ffigwr hwn yn eithaf bach."*


Gellir cymharu data StatsCymru â chyfrifiadau eraill o anheddau newydd a gwblhawyd. Mae'n rhesymol tybio y bydd rhywfaint o anghysondeb yn bodoli mewn adroddiadau o flwyddyn i flwyddyn o wahanol ffynonellau data, sy'n gysylltiedig â gwahanol arolygon, amseroedd ac oedi yn y broses weinyddol. Fodd bynnag, dylai unrhyw dangyfrif sylweddol o ganlyniad i hepgoriadau ddod yn fwy amlwg dros y cyfnod monitro pum mlynedd.

Un set arall o ddata yw data Monitro Tai a Gwblheir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, sy'n seiliedig ar arolygon blynyddol o ganiatâd cynllunio, a ddefnyddir i lywio'r gwaith o baratoi a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r data hwn wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth ym maes cynllunio, wedi iddo gael ei ddefnyddio'n hanesyddol i lywio cyfrifiadau tir 5 mlynedd y cyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai (Joint Housing Land Availability Study). Dyma hefyd y data a ddefnyddir i lywio Adroddiadau Monitro Blynyddol sy'n monitro effeithiolrwydd Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r data'n casglu gwybodaeth am adeiladau newydd, ond hefyd yn casglu gwybodaeth am gyflawni anheddau newydd - er enghraifft lle mae newid defnydd yn arwain at gartrefi ychwanegol, neu lle mae is-rannu'n arwain at gynnydd net mewn anheddau.

Mae data cwblhau yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol ledled Cymru'n dangos bod oddeutu 39,227 o gartrefi wedi cael eu darparu rhwng 2019/20 a 2023/24 (h.y. y pum mlynedd gyntaf o ddata sydd ar gael ers i Gymru'r Dyfodol ddod i rym). Mae ffigurau cwblhau o Adroddiadau Monitro Blynyddol oddeutu 48% yn uwch na'r data adeiladau newydd a gwblhawyd a gyhoeddwyd ar wefan StatsCymru, fel y gwelir yn y siart isod.

⁹¹[Anheddau newydd a ddechreuwyd yn ôl awdurdod lleol, deiliadaeth a'r math o annedd | StatsCymru](#)

Graff 7: Tai Rhanbarthol a Gwblhawyd (2019-24)



Fel y gwelir uchod, mae data Adroddiadau Monitro Blynyddol yn awgrymu bod y mwyaf o gartrefi a ddarparwyd yn Ne-ddwyrain Cymru, sef cyfanswm o oddeutu 21,615. Gwelwyd y nifer isaf yng Nghanolbarth Cymru, sef cyfanswm o 2,647 o gartrefi. Dylid nodi, oherwydd cyfyngiadau wrth nodi lleoliadau safleoedd yn fanwl o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, bydd rhai o'r tai a gwblhawyd yn rhanbarthau'r De Ddwyrain a De Orllewin wedi cael eu priodoli i ganolbarth Cymru lle cafodd y rhan fwyaf o dai yn yr Awdurdod Cynllunio Lleol hwn eu cwblhau.

Mae'n bwysig nodi ar gamau cyntaf yr adolygiad, ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith Cymru'r Dyfodol o ran darparu cartrefi. Ar ben hynny, mae **Adroddiadau Blynyddol y Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC) ers 2021**⁹² yn tynnu sylw at yr amodau economaidd heriol ers pandemig Covid 19 sydd wedi rhwystro cynnydd mewn darparu tai ar y farchnad ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai yn adrodd bod hyn yn bennaf oherwydd cyflwr gwael economi'r DU, gyda chyfraddau llog uchel a phwysau chwyddiant parhaus yn cyfrannu'n sylweddol at arafu gweithgarwch adeiladu tai. Yn ogystal, gwelwyd heriau amgylcheddol pwysig yn gysylltiedig ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) ac ansawdd dŵr morol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru sydd wedi effeithio ar ddarpariaeth cartrefi newydd. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yn Adran 7.4.

Ym mis Chwefror 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru set newydd o amcangyfrifon cenedlaethol o anghenion tai ychwanegol⁹³ sy'n diweddarau'r rhai o 2019 a ddefnyddiwyd i lywio Cymru'r Dyfodol. Byddai angen i unrhyw adolygiad o Gymru'r Dyfodol yn y dyfodol ystyried y ffigurau diweddaraf hyn. Dylid nodi, fodd bynnag, na ddylid defnyddio'r datganiad diweddaraf fel targedau tai, fel gyda'r amcangyfrifon blaenorol o angen.


5.1.2 Tai Fforddiadwy

⁹² [Adroddiadau Blynyddol y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai \(NHBC\)](#)

⁹³ [Amcangyfrifon o'r angen am dai: sail 2025](#)


Gan droi at dai fforddiadwy, gwelwyd cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf mewn darpariaeth o'i gymharu â chyfraddau hanesyddol. Cyflwynwyd 3,643 yn 2024-25, y ffigur uchaf ers dechrau cofnodion yn 2007⁹⁴. Roedd hyn yn cymharu â 2,942 yn 2019-20 a 2,218 yn 2014-15.

Graff 8: Darparu Tai Fforddiadwy Ychwanegol 2007-2025⁹⁵



Mae darpariaeth ranbarthol yn dangos tuedd debyg gyda'r gyfradd ddarparu uchaf i'w gweld yn y De Ddwyrain a'r uchaf yng Nghanolbarth Cymru.

Graff 9: Darpariaeth Tai Fforddiadwy Rhanbarthol (2008-2025)⁹⁶



⁹⁴ [Darparu tai fforddiadwy: 2024-25](#)

⁹⁵ [Darparu tai fforddiadwy: 2024-25](#)

⁹⁶ [Darparu tai fforddiadwy: 2024-25](#)

Ym mis Tachwedd 2025, rhoddodd **Datganiad Ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol a Thai ar Ddarparu Tai Fforddiadwy**⁹⁷ ddiweddariad ar y cynnydd tuag at y targedau tai cymdeithasol o 20,000. Roedd yn cadarnhau y rhagwelir y bydd 18,652 o dai carbon isel ar gael i'w rhentu o fewn y sector erbyn mis Mai 2026. Mae hyn yn cynnwys adeiladu newydd, caffaeliadau a chyflwyno cartrefi gwag yn ôl i ddefnydd fforddiadwy. Er na fydd y targed wedi cael ei gyrraedd yn llawn erbyn diwedd Tymor y Senedd, disgwylir i 1,652 o dai ychwanegol gael eu darparu erbyn diwedd 2026 gan ddod â'r cyfanswm i 20,304. Mae Polisi Cymru'r Dyfodol 7 yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth ddylanwadu ar gyflawni'r uchelgais hon yn barhaus.

Yn 2024 crëwyd Tasglu Tai Fforddiadwy newydd i adrodd ar yr heriau tymor byr i ryddhau safleoedd yn yr ymrwymiad manifesto 20k a gwneud newidiadau i'r system i symleiddio'r broses o ddarparu mwy o dai ar gyfer rhent cymdeithasol. Ym mis Mai 2025, cyhoeddwyd yr adroddiad yn tynnu sylw at argymhellion penodol ar gyfer y system gynllunio sy'n ymwneud â chyflwyno arbedion effeithlonrwydd, blaenoriaethu ceisiadau ar gyfer cartrefi fforddiadwy newydd a symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer caniatâd cynllunio a phrosesau'r Cynllun Datblygu Lleol⁹⁸.

5.2 DIGARTREFEDD

Ar ddechrau'r pandemig Covid-19 yn 2020, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru ymagwedd 'neb heb help' er mwyn sicrhau bod gan bawb fynediad at le diogel i fyw. Mae hyn yn golygu bod unrhyw un sy'n ddigartref ar y stryd neu mewn perygl o fod yn ddigartref ar y stryd bellach yn cael ei gydnabod mewn deddfwriaeth fel rhywun gydag 'angen blaenoriaethol' ar gyfer cymorth tai a llety brys.

Mae ystadegau digartrefedd statudol yn darparu gwybodaeth gryno am weithgareddau awdurdodau tai lleol o dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd, a gyflwynwyd yn **Neddf Tai (Cymru) 2014**. Mae'r ystadegau'n cwmpasu atal a lliniaru digartrefedd yn ogystal â gwybodaeth am nifer yr aelwydydd digartref mewn llety dros dro. Mae casgliadau am ddigartrefedd statudol yn casglu data ar nifer yr aelwydydd, nid unigolion. O'r data digartrefedd statudol⁹⁹, mae nifer yr aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag bod yn ddigartref wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gyfradd isaf wedi'i chofnodi yn 2024-25 o 33 fesul pob 10,000 o aelwydydd, o'i gymharu â 49 yn 2019-20.

Fodd bynnag, mae'r data digartrefedd statudol diweddaraf¹⁰⁰ yn amlinellu bod digartrefedd yn cael ei atal yn llwyddiannus yn y mwyafrif o achosion (yn ystod 2024-25 cafodd digartrefedd ei atal yn llwyddiannus mewn 57% o achosion drwy adran 66). Adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yw'r ddyletswydd a roddir ar awdurdodau tai lleol i helpu i atal ceidwad rhag dod yn ddigartref. Yn ei dermau eangaf, mae 'atal digartrefedd' yn golygu bod awdurdod lleol yn cymryd camau cadarnhaol i ddarparu cymorth tai i rywun y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod mewn perygl o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod. Gellir hefyd gwneud gwaith atal cyn cyrraedd y diffiniad statudol ond ni fyddai hynny'n cael ei gofnodi yn erbyn canlyniadau atal Adran 66. Mae digartrefedd yn her frys i Gymru, gweddill y DU a'r byd. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n mynd ati'n weithredol i fynd i'r afael â digartrefedd drwy fuddsoddi mwy mewn dulliau atal, a chyflenwad tai, gan fuddsoddi bron i £220m mewn atal digartrefedd a chymorth tai eleni'n unig.

⁹⁷ [Datganiad Ysgrifenedig: Darparu tai fforddiadwy \(13 Tachwedd 2025\) | LLYW.CYMRU](#)

⁹⁸ [Tasglu Tai Fforddiadwy: adroddiad ac argymhellion \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁹⁹ [Ystadegau Digartrefedd | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰⁰ [Digartrefedd: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 | LLYW.CYMRU](#)

Gan droi at gysgu allan, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau allgymorth pendant a chymorth cofleidiol, sy'n hanfodol, nid yn unig er mwyn helpu pobl i symud i lety, ond hefyd i'w galluogi i gadw'r llety hwnnw. Cyflwynwyd casgliad data digartrefedd misol¹⁰¹ ar ddechrau'r pandemig, er mwyn caniatáu mynediad mwy amserol at ddata ar ddarpariaeth llety dros dro a nifer y bobl a oedd yn cysgu allan.

Er nad oes modd cymharu gyda data cyn 2020¹⁰², mae'r data misol a gyhoeddwyd ar StatsCymru¹⁰³ yn dangos bod nifer y rhai sy'n cysgu allan wedi amrywio drwy'r flwyddyn gyda gostyngiad rhwng Hydref 2024 a Hydref 2025 o 173 i 157. Cyngorir bod angen gofal wrth gymharu gyda data misol, gan y gallai ffactorau tymhorol effeithio ar ddigartrefedd, neu resymau eraill dros amrywiadau.

Yn 2023, diweddarwyd y **Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd**. Datblygwyd y **Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd** i ddarparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, gan adeiladu ar y camau gweithredu allweddol yn y cynllun gweithredu. Cyhoeddwyd y fframwaith ym mis Ionawr 2024. Cyhoeddwyd adroddiad gwaelodlin Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, yr adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd yn erbyn y fframwaith canlyniadau, ym mis Gorffennaf 2024. Cyhoeddwyd **Adroddiad Diweddar Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 2025**¹⁰⁴, yr ail adroddiad a gyhoeddwyd yn erbyn y fframwaith, ym mis Hydref 2025.

Ymhlith y camau allweddol roedd cyflwyno **Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**. Mae'r bil ar gam 3 o'r broses ddeddfwriaethol ar hyn o bryd, a disgwylir iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2026. Mae'r Bil yn nodi ystod o welliannau i drawsnewid y system ddigartrefedd yng Nghymru, gan gynnwys pwyslais cryfach ar atal er mwyn cyflawni ein huchelgais hirdymor i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Dylai Cymru'r Dyfodol barhau i fynd ar drywydd tai fforddiadwy fel polisi cynllunio cenedlaethol a monitro i sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â deddfwriaeth a pholisïau digartrefedd ehangach.

5.3 CYMUNEDAU CYNALIADWY

5.3.1 Creu lleoedd

Mae Cymru'r Dyfodol yn llunio lleoedd cynaliadwy ac yn pwysleisio pwysigrwydd teithio llesol, defnyddiau cymysg a seilwaith gwyrdd o fewn cymdogaethau i annog cymunedau bywiog, cydlynol ac amrywiol ochr yn ochr â datblygiadau tai. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid i ddylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol y datblygiad, gan gynnwys sut mae gofod yn cael ei ddefnyddio, sut mae adeiladau a'r ardal gyhoeddus yn cefnogi'r defnydd hwn, yn ogystal â'i ddull adeiladu, sut mae'n cael ei weithredu a'i reoli, a'i berthynas gyda'r ardal gyfagos. Mae diogelwch cymunedol yn elfen allweddol o ddylunio da, gydag atal trosedd a phryder ynghylch troseddu'n ffactorau cymdeithasol y dylid eu hystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu a gwneud penderfyniadau ynghylch cynllunio.

Yn 2024-25, cadarnhaodd yr **Adroddiad Lles Cenedlaethol 2025**¹⁰⁵ fod 78% o bobl yn dweud eu bod yn fodlon â'u gallu i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau,

¹⁰¹ [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰² [Cyfrif cenedlaethol o gysgu allan \(wedi dod i ben o fis Tachwedd 2019\) | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰³ [Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰⁴ [Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Adroddiad Diweddar 2025 | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰⁵ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

gostyngiad o 86% yn 2022 ac 80% yn 2019-20. Roedd 58% yn cytuno eu bod yn perthyn i'w hardal leol a'u cymuned o'i gymharu â 52% yn 2018-19 ac roedd 84% yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw sydd wedi bod yn eithaf cyson ers 2017. Fodd bynnag, 68% o bobl a ddywedodd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ac wrth gerdded yn eu hardal leol, o'i gymharu â 71% yn 2019-20.

Mae Llywodraeth Cymru a **Chomisiwn Dylunio Cymru** mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru wedi datblygu **Siarter Creu Lleoedd Cymru**¹⁰⁶. Mae'r siarter yn amlinellu chwe egwyddor creu lleoedd sy'n cwmparu'r ystod o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da. Mae llofnodwyr yn ymrwymo i gefnogi creu lleoedd trwy gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a phresennol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a mannau cyhoeddus sydd wedi'u diffinio'n dda, yn groesawus, yn ddiogel ac yn gynhwysol. Erbyn mis Rhagfyr 2025, roedd 173 sefydliad wedi llofnodi'r Siarter, gan gynnwys 12 Awdurdod Lleol a 3 Pharc Cenedlaethol.

5.3.2 Llifogydd

Mae'r asesiadau perygl llifogydd diweddaraf gan CNC yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer sylweddol o gartrefi yng Nghymru mewn perygl o lifogydd gan foroedd, afonydd a dŵr wyneb, gyda rhai eiddo mewn perygl o fwy nag un math o lifogydd. Mae'r **Adroddiad Llesiant Cymru** diweddaraf (2025)¹⁰⁷ yn nodi bod 1 o bob 7 (275,000) eiddo preswyl ac eiddo amhreswyl mewn perygl isel, canolig neu uchel o lifogydd. O ran y dangosydd cenedlaethol ar lifogydd, roedd bron i 49,000 eiddo yng Nghymru mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd gan afonydd a dros 80,000 o eiddo mewn perygl uchel neu ganolig o lifogydd llanw. Mae **SoNaRR 2025**¹⁰⁸ yn tynnu sylw at y ffaith bod y perygl o lifogydd yn debygol o gynyddu oherwydd newid yn yr hinsawdd a thwf poblogaeth, a rhagwelir y bydd bron i 353,000 eiddo mewn perygl o lifogydd erbyn 2120.

Mae'r dull strategol cenedlaethol o reoli perygl llifogydd drwy'r broses gynllunio a datblygu wedi'i sefydlu'n gadarn o fewn fframwaith polisi clir, a amlinellir yn bennaf ym Mholisi Cymru'r Dyfodol 8 a **Pholisi Cynllunio Cymru**. Egwyddor graidd y dull hwn yw y dylai dealltwriaeth o berygl llifogydd fod yn ffactor hanfodol wrth wneud penderfyniadau strategol o fewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol, yn enwedig wrth bennu lleoliadau addas ar gyfer twf newydd a seilwaith hanfodol.

Mae'n werth nodi, diweddarwyd **Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN 15)**¹⁰⁹ ym mis Mawrth 2025 sy'n darparu canllawiau ar gydbwysu cynigion datblygu newydd â'r risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd. Mae'r canllawiau diwygiedig hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar rolau Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol nid yn unig wrth asesu lefel y risg ond hefyd wrth nodi ac ymgorffori mesurau lliniaru llifogydd priodol mewn modd rhagweithiol. Ar ben hynny, mae'r polisi diwygiedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau gwybodus sy'n rhoi ystyriaeth effeithiol i dystiolaeth ac amgylchiadau lleol unigryw.

5.4 CRYNODEB O'R CASGLIADAU

Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod sylfaen gadarn ac uchelgeisiol ar gyfer cyflawni twf cynaliadwy a diwallu anghenion tai ledled Cymru. Er ei fod yn parhau i ddarparu'r cyfeiriad gofodol, mae darpariaeth tai wedi'i siapia gan gefndir economaidd heriol. Mae cyfuniad o

¹⁰⁶ [Siarter Creu Lleoedd Cymru](#)

¹⁰⁷ [Llesiant Cymru 2025](#)

¹⁰⁸ [Cyfoeth Naturiol Cymru / SoNaRR 2025](#)

¹⁰⁹ [Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol \(2025\)](#)

effeithiau ymadawiad y DU o'r UE, pandemig COVID-19, y rhyfel yn Wcráin, chwyddiant uchel, a chyfyngiadau sy'n deillio o ofynion ansawdd dŵr afonydd a morol wedi creu heriau i'r diwydiant adeiladu.

Er bod cyfanswm y cartrefi newydd a ddarparwyd wedi cael ei effeithio gan y ffactorau uchod, mae darpariaeth tai fforddiadwy wedi cryfhau dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r ffigwr blynyddol uchaf ers 2007 yn cael ei gofnodi yn 2024-25. Mae'r cynnydd tuag at ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau 20,000 o dai cymdeithasol yn nodedig, a disgwylir iddo gael ei wireddu'n llawn erbyn mis Tachwedd 2026. Mae parhau i ddarparu tai fforddiadwy a sicrhau bod polisi cynllunio'n cyd-fynd â chymorth tai ehangach a mesurau digartrefedd yn allweddol ar gyfer cynnydd.

Mewn perthynas â chreu lleoedd, mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn cefnogi creu cymunedau cynaliadwy gyda chysylltiadau da sy'n cefnogi teithio llesol, diogelwch a mynediad at wasanaethau. Mae dangosyddion llesiant cenedlaethol yn dangos darlun cymysg o gynnydd yn ymwneud â chanfyddiad y cyhoedd o'u hardal leol. Er bod amodau cymdeithasol ac economaidd ehangach yn dylanwadu ar y canlyniadau hyn, mae nifer cynyddol o sefydliadau yn llofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru, sy'n adlewyrchu ymrwymiad cryf i egwyddorion creu lleoedd o ansawdd uchel. Mae perygl llifogydd yn parhau i fod yn her sylweddol, gyda'r Nodyn Cyngor Technegol 15 diwygiedig diweddar yn atgyfnerthu pwysigrwydd integreiddio perygl llifogydd wrth lunio cynlluniau strategol a lleol i sicrhau bod twf yn cael ei gyfeirio at y lleoliadau gorau.

Yn gyffredinol, er bod Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu fframwaith gofodol a pholisi i gefnogi darpariaeth tai, mae ffactorau allanol wedi chwarae rhan sylweddol o ran siapio'r canlyniadau hyd yn hyn. Fel y nodwyd yn adran 2.4, mae cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol ar gyfer pob rhanbarth hefyd yn cymryd amser, gan fod angen amser i ymgorffori mentrau i annog cynnydd. Bydd pwyslais parhaus ar gynllunio rhanbarthol, darparu tai fforddiadwy, gweithredu egwyddorion creu lleoedd yn ymarferol a monitro cyflenwad tai yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion tai hirdymor yn y lleoedd cywir.

6.0 Cwestiwn 5: A yw Cymru'r Dyfodol wedi gwneud lleoedd yn iachach?


Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod y fframwaith gofodol ar gyfer penderfyniadau cynllunio sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae cynllunio'n siapio'r lleoedd lle mae pobl yn byw ac yn dylanwadu ar y cyfleoedd sydd ganddynt a'u dewisiadau posibl. Mae'n effeithio ar feysydd allweddol sy'n effeithio ar iechyd gan gynnwys ansawdd aer, mynediad i fannau agored, cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, diwallu anghenion tai a mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau. Mae monitro gwelliannau iechyd a mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar amgylcheddau iach a phenderfyniadau yn fesur allweddol o gynnydd.

6.1 LLEOEDD WEDI'U CYNLLUNIO AR GYFER POBL IACH

6.1.1 Disgwyliad oes

Mae'r cynnydd tuag at sicrhau Cymru iachach wedi bod yn gymysg, gyda phandemig Covid-19 yn effeithio'n sylweddol ar dueddiadau. Mae disgwyliad oes wedi aros yn sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sef 78.1 mlynedd i ddynion ac 82 mlynedd i fenywod ar gyfer 2023¹¹⁰. Er bod **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021**¹¹¹ yn nodi bod disgwyliad oes ar fin cynyddu, disgwylir i ddisgwyliadau ar gyfer disgwyliad oes iach aros yn eu hunfan. Mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2021-23 sy'n ymwneud â disgwyliad oes iach yn cadarnhau tuedd ar i lawr ers 2019-21.

Graff 10: Disgwyliad oes a disgwyliad oes iach mewn blynyddoedd adeg genedigaeth¹¹²



Mae COVID-19 wedi amlygu anghydraddoldebau mawr ym maes iechyd yng Nghymru, gyda phobl sy'n byw mewn ardaloedd diffreintiedig yn treulio llawer llai o flynyddoedd yn iach. Mae


¹¹⁰ [Disgwyliad oes ar gyfer ardaloedd lleol Prydain - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

¹¹¹ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/6/2/1687863120/tueddiadaur-dyfodol-2021.pdf>

¹¹² [Dangosydd Cenedlaethol 2](#)

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (2025)¹¹³ yn cyfeirio at iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n amlygu effaith gronol Brexit, pandemig COVID-19, a'r hinsawdd, y cyfeirir atynt fel yr Her Driphlyg, ar iechyd, llesiant a thegwch. Mae'r ffactorau hyn wedi gwaethygu anghydraddoldebau presennol, yn enwedig i'r rhai mewn cymunedau economaidd difreintiedig a grwpiau ymylol. Caiff hyn ei amlygu yn ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol dros y 10 mlynedd diwethaf lle mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach wedi cynyddu wrth gymharu rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig.

*Graff 11: Bwlch mewn Disgwyliad Oes Iach mewn blynnyddoedd adeg geni rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig*¹¹⁴



6.1.2 Llesiant

Yn y flwyddyn ariannol 2024 i 2025, y sgôr lles meddyliol cyfartalog ymhlith oedolion oedd 48.4 ar Raddfa Lles Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS)¹¹⁵, yn debyg i'r blynnyddoedd diwethaf. Mae unigrwydd hefyd wedi aros yr un fath dros y blynnyddoedd diwethaf, gyda 13% o bobl yng Nghymru yn unig yn 2022-23¹¹⁶ yr un fath ag yn 2021-22 a 2020-21 ac yn is na 2019-20. Roedd y canlyniadau diweddaraf (2022 i 2023) o **Arolwg Cenedlaethol Cymru** yn awgrymu bod oedolion iau (16 i 44 mlwydd oed) yn fwy tebygol o deimlo'n unig na'r rhai 65 mlwydd oed a hŷn¹¹⁷.

6.2 LLEOEDD WEDI'U CYNLLUNIO AR GYFER AMGYLCHEDDAU IACH

6.2.1 Ansawdd Aer

Mae cau diwydiannau sy'n llygru a chynnydd yn y sector ynni adnewyddadwy wedi helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae'r gostyngiad cadarnhaol mewn lefelau nitrogen deuocsid dros y degawd diwethaf hefyd yn cael ei drafod ymhellach yn Adran 3.1.

6.2.2 Creu lleoedd

Mae Cymru'r Dyfodol a **Pholisi Cynllunio Cymru** yn cefnogi mabwysiadu dull creu lleoedd ar gyfer creu cynlluniau, polisi cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae creu lleoedd yn ddull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiad a gofod, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n dwyn ysbrydoliaeth o botensial ardal i greu datblygiadau o ansawdd uchel a lleoedd cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr

¹¹³ [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.pdf](#)

¹¹⁴ [Dangosydd Cenedlaethol 2](#)

¹¹⁵ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

¹¹⁶ [Dangosydd Cenedlaethol 30](#)

¹¹⁷ [Llesiant Cymru 2025 | LLYW.CYMRU](#)

ehangaf. Mae lleoedd iach wedi'u cynllunio i feithrin ffyrdd o fyw egnïol, rhyngweithio cymdeithasol a mynediad at natur sy'n hanfodol ar gyfer iechyd cyffredinol.

Fel y manylir yn 5.3.1, ceir cynnydd amrywiol wrth asesu dangosyddion cenedlaethol sy'n ymwneud â mynediad at gyfleusterau, boddhad gyda'u hardaloedd lleol a diogelwch. Fodd bynnag, mae ymrwymiad cyrff cyhoeddus i fabwysiadu egwyddorion creu lleoedd trwy gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a phresennol wedi cynyddu.

6.2.3 Ffyrdd iach o fyw

Cafodd **Arolwg Cenedlaethol Cymru** ei addasu o ganlyniad i'r pandemig, ac felly nid yw'n bosibl cymharu canlyniadau'n uniongyrchol ar gyfer ymddygiadau ffordd iach o fyw cyn blwyddyn ariannol 2020 i 2021¹¹⁸. Cyn pandemig COVID-19, rhwng 2016 a 2017 a 2019 i 2020, dirywiodd canran yr oedolion a oedd yn dangos dau neu fwy o ymddygiadau iachach. Mae'n ymddangos bod y duedd ers y cyfnod rhwng 2020 a 2021 wedi gwella ychydig ond nid oes modd cymharu gyda blynyddoedd blaenorol.

Yn 2024-25 dywedodd 93.6%¹¹⁹ o oedolion eu bod wedi dilyn dau neu fwy o ymddygiadau iach, megis peidio ag ysmygu, yfed o fewn canllawiau, bwyta ffrwythau a llysiau, symud y corff a chadw pwysau iach.

Gostyngodd cyfranogiad mewn chwaraeon yn ystod blwyddyn ariannol 2024 i 2025, gyda 35% o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. Ond dros y tymor hwy, mae canran yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd wedi bod yn cynyddu. Roedd cyfranogiad plant mewn chwaraeon wedi cynyddu'n flaenorol, ond mae bellach wedi gostwng yn ôl i lefelau tebyg i'r rhai a welwyd yn 2013¹²⁰.

Fel y manylir yn Adran 3.3.4, er gwaethaf ymrwymïadau deddfwriaethol a pholisi cryf i deithio llesol, nid yw'r ffigurau diweddar yn dangos llawer o newid yng Nghymru.

6.2.4 Seilwaith gwyrdd, coed ac ecosystemau gwydn

Mae cryfhau ecosystemau, bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn bwysig wrth greu lleoedd iachach oherwydd rôl yr amgylchedd naturiol mewn iechyd a lles pobl. Mae'r system gynllunio yn cyfrannu at hyn trwy ddiogelu natur, rheoli mannau gwyrdd presennol a chreu seilwaith gwyrdd newydd, gan sicrhau bod datblygiadau newydd yn darparu gwell mynediad i ardaloedd naturiol diogel, cynhwysol, amrywiol a diddorol i bobl. Mae **Polisi Cynllunio Cymru 12** wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gynllunio ar gyfer y mannau hyn, cyfeiriad a gefnogir gan Bolisi 9 Cymru'r Dyfodol. Mae'r berthynas barhaus rhwng Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn hanfodol ar gyfer yr ymdrech hon ac fe'i harchwilir ymhellach o dan Adran 7.0.

6.3 CRYNODEB O'R CASGLIADAU

Nod Cymru'r Dyfodol a pholisïau cynllunio cenedlaethol eraill yw darparu fframwaith cadarn ar gyfer creu cymunedau iachach, mwy cynaliadwy. Mae gan y system gynllunio rôl bwysig wrth lunio'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n pennu iechyd. Gall y ffordd y mae lleoedd yn gweithio ac yn gweithredu effeithio ar y dewisiadau mae pobl yn eu gwneud yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae ffactorau sy'n

¹¹⁸ [Llesiant Cymru 2025](#)

¹¹⁹ [Dangosydd Cenedlaethol 3](#)

¹²⁰ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

pennu iechyd yn cael eu dylanwadu gan lawer o agweddau gwahanol, a gallant fod y tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol y system gynllunio.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn nodi darlun cymysg o ran canlyniadau iechyd. Er bod disgwyliad oes wedi aros yn sefydlog, ceir tuedd ar i lawr mewn disgwyliad oes iach, ac mae'r trywydd hwn wedi gwaethgu o ganlyniad i effeithiau hirdymor y pandemig COVID-19. Mae'r tueddiadau hyn yn tanlinellu bwlch sy'n ehangu o ran canlyniadau iechyd, wrth i anghydraddoldeb barhau ledled Cymru. Yn benodol, mae trigolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn parhau i dreulio llai o flynyddoedd mewn iechyd da o'i gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, gyda'r bwlch disgwyliad oes iach rhwng y grwpiau hyn yn parhau i gynyddu.

Mae tueddiadau sy'n ymwneud â lles meddyliol ac unigrwydd wedi aros yn gymharol sefydlog. Mae lefelau cyfranogiad rheolaidd mewn chwaraeon wedi amrywio, ac er gwaethaf ymrwymadau polisi cryf i deithio llesol, ychydig iawn o newid ymddygiadol a welwyd o ran patrymau teithio. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i barhau i ganolbwyntio ar ddarparu amgylcheddau sy'n gwneud teithio llesol a dewisiadau ffordd iach o fyw yn fwy cyfleus a deniadol.

Ar y cyfan, er na all y system gynllunio fynd i'r afael â phob penderfyniad iechyd, mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn gosod y cyfeiriad polisi ar gyfer creu amgylcheddau iachach. Mae'r dystiolaeth gynnar yn dangos y bydd gweithredu egwyddorion creu lleoedd, blaenoriaethu teithio llesol, diogelu a gwella seilwaith gwyrdd, a chyd-fynd ag amcanion iechyd cyhoeddus ehangach yn hanfodol er mwyn cyflawni gwelliannau hirdymor mewn iechyd a lles ledled Cymru.

7.0 Cwestiwn 6: A yw Cymru'r Dyfodol wedi helpu i atgyfnerthu ecosystemau a gwella bioamrywiaeth?

Mae'r **Polisi Adnoddau Naturiol**¹²¹ yng Nghymru yn cael ei lywio gan **Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Ei nod yw sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd sydd o fudd i'r amgylchedd a phobl Cymru, gan bwysleisio pwysigrwydd dull ecosystem sy'n integreiddio ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth wneud penderfyniadau. Roedd y **Polisi Adnoddau Naturiol** yn llywio ac yn helpu i lunio Cymru'r Dyfodol. Mae'r berthynas yn ddwy ffordd, gyda Chymru'r Dyfodol yn cymryd y cyfeiriad strategol ac yn darparu ffordd o gyflawni a fframwaith ar gyfer gwneud y mwyaf o'r canlyniadau posibl. Ystyrir bod asesu gwelliant mewn gwytnwch ecosystemau a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yn fesur allweddol o gynnydd.

7.1 Argyfwng Natur

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd y Senedd 'argyfwng natur'¹²² i gydnabod dirywiad mewn bioamrywiaeth a achosir gan bobl. Mabwysiadwyd **Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal**¹²³ yn COP15 ym mis Rhagfyr 2022. Roedd yn disodli Cynllun Strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011-2020 a thargedau Aichi, ac mae'n cynnwys pedwar nod a 23 targed i'w cyflawni erbyn 2030. Mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn mynd i'r afael â materion amrywiol i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, gan gynnwys targedau i ddiogelu ecosystemau (targedau 2 a 3) a rhywogaethau (targedau 4, 5 a 6); mynd i'r afael â llygredd (targed 7); a pharchu hawliau pobl frodorol a chymunedau lleol (Nod C ac wedi'i gynnwys mewn 7 targed).

Mae Targed 3, y cyfeirir ato hefyd fel '30x30', yn agwedd allweddol ar gytundeb COP15, sy'n anelu at ddiogelu: "... o leiaf 30% o ardaloedd daearol, mewndirol, dŵr, ac arfordirol, yn enwedig ardaloedd o bwysigrwydd arbennig ar gyfer bioamrywiaeth a swyddogaethau a gwasanaethau ecosystemau...".

Fel ymateb i'r ymrwymiad 30x30 a chyn COP15, lansiodd Llywodraeth Cymru **Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth**¹²⁴, a ddaeth i ben ym mis Hydref 2022. Nododd grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr themâu allweddol ac argymhellion ar gyfer camau gweithredu i gefnogi'r targed 30x30¹²⁵. Roedd yr **Archwiliad Dwfn** yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol a sefydlu targedau bioamrywiaeth statudol¹²⁶.

Nod **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**, a gyflwynwyd ym mis Medi 2025 yw:

- Ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yn y gyfraith i gefnogi penderfyniadau polisi yn y dyfodol (Rhan 1);

¹²¹ [Polisi Adnoddau Naturiol \(2017\)](#)

¹²² [Cyfarfod Llawn 30/06/2021 - Senedd Cymru](#)

¹²³ [Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal](#)

¹²⁴ [Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth \(2022\)](#)

¹²⁵ [Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth: Argymhellion](#)

¹²⁶ [Papur Briffio Bioamrywiaeth \(2023\)](#)

- Sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol (Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru) a fyddai'n dwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif am gyfraith amgylcheddol (Rhan 2); a
- Chyflwyno fframwaith statudol ar gyfer targedau bioamrywiaeth sy'n rhwymol yn gyfreithiol (Rhan 3)¹²⁷

Byddai angen i waith monitro parhaus ac unrhyw adolygiad o Gymru'r Dyfodol yn y dyfodol ystyried a chroesawu goblygiadau'r Bil pan fydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

7.2 GWELLA BIOAMRYWIAETH

Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu gwytnwch ecosystemau, ar wahanol raddfeydd, trwy sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i amddiffyn rhag colled ac i sicrhau gwelliant. Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod pwysigrwydd gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynorthwyo adferiad natur, ac mae **Polisi Cynllunio Cymru** yn nodi ystod o bolisiau i gynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, gan gynnwys sicrhau budd net i fioamrywiaeth gan ddefnyddio dull graddol.

7.2.1 Statws Bioamrywiaeth

Mae adroddiad **Llesiant Cymru 2025**¹²⁸ wedi nodi bod yr asesiad cynhwysfawr diweddaraf o adnoddau naturiol Cymru yn dangos bod amrywiaeth fiolegol yn dirywio yn gyffredinol. Rhwng 1970-2016, mae'r mynegai newid dosbarthiad ar gyfer rhywogaethau blaenoriaeth adran 7 yng Nghymru wedi gostwng i 87% o'i werth gwaelodlin ym 1970. Canfu cyhoeddiad **SoNaRR 2025**¹²⁹ nad yw Cymru yn cyflawni pedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy hyd yma, a bod Cymru'n un o'r gwledydd sydd wedi'u disbyddu fwyaf yn y byd o ran natur, gyda bron i 1 o bob 5 rhywogaeth mewn perygl o ddifodiant.

7.2.2 Pridd

Bydd pridd sy'n cael ei reoli'n dda yn diogelu cynhyrchiant bwyd, cefnogi cynefinoedd, helpu i liniaru perygl llifogydd ac yn lleihau costau trin dŵr. Mae'r dangosydd cenedlaethol ar garbon pridd ar gyfer 2021 i 2023, yn dangos bod crynodiad carbon yn ein huwchbridd yn sefydlog ar y cyfan, ar wahân i dir â'r a choetir llydanddail lle gwelwyd colli carbon yn y pridd o'i gymharu â chrynodiadau yn 2013 i 2016¹³⁰.

Er ei bod yn fenter y tu allan i'r system gynllunio, mae'r **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir**¹³¹ wedi adfer 3,600ha o fawndir. Mae hyn wedi helpu i ddiogelu 2.2 miliwn tonnall o garbon (yn seiliedig ar raddfa'r gweithgarwch adfer a chynnwys y carbon a amcangyfrifir mewn priddoedd mawn yng Nghymru).

Fel y manylir yn Adran 4.2.4, mae materion wedi codi lle bo penderfyniadau'n gofyn am ystyriaeth ofalus o effeithiau cynigion ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy mewn amgylcheddau sensitif, gan gynnwys mawndir a thir gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV). Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu fframwaith i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth gydbwysu'r blaenoriaethau hyn sy'n cystadlu â'i gilydd. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i rôl Cymru'r Dyfodol yn y cyd-destun hwn a'r cyfleoedd sydd ar gael i

¹²⁷ [Bil yr Amgylchedd \(Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth\) Diwygiadau Cyfnod 2](#)

¹²⁸ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

¹²⁹ [Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol \(2025\)](#)

¹³⁰ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

¹³¹ [Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd 2020-2025](#)

ehangu'r gwaith monitro i ystyried y berthynas rhwng cynigion datblygu ac amgylcheddau sensitif.

7.2.3 Ôl troed ecolegol

Ceir hefyd carreg filltir genedlaethol yn ymwneud ag ôl troed byd-eang, sef y dylai Cymru fod yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r byd yn unig erbyn 2050. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn dangos, er bod yr ôl troed byd-eang fesul person yng Nghymru wedi gostwng bron i draean rhwng 2004 a 2018, mae'n parhau i fod dros ddwywaith y biogapasiti a amcangyfrifir ar gyfer Cymru. Pe bai poblogaeth gyfan y byd yn byw fel dinasyddion Cymru, byddai dynoliaeth angen 2.08 Daear¹³².

Fel y manylir yn Adran 3.2.1, bu gostyngiad yng nghyfanswm y gwastraff a gynhyrchir fesul aelwyd ac mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng yn ystod y degawd diwethaf.

7.2.4 Coetir

Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i greu **Coedwig Genedlaethol Cymru** yng Ngwanwyn 2020. Nod y Goedwig Genedlaethol yw adfer a chynnal coetir presennol a'u cysylltu ag ardaloedd coetir newydd trwy blannu coed. Er nad yw'r system gynllunio yn cyfrannu'n uniongyrchol at blannu coed, mae Polisi 15 yn cefnogi'r egwyddor o ddiogelu lleoliadau arfaethedig ar gyfer y Goedwig Genedlaethol. Hefyd, yr egwyddor o gynyddu gorchudd coetir yn unol â thargedau cenedlaethol i helpu i wella gwytnwch ecosystemau, gweithio tuag at dargedau newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio, ac yn darparu lleoedd ar gyfer hamdden a lles.

Mae'r **Ystadegau Coedwigaeth diweddaraf (2025)**¹³³ yn adrodd bod gwelliannau wedi'u cofnodi o ran plannu coetir yng Nghymru gyda ffigurau blynyddol yn cynyddu o 80ha y flwyddyn yn 2020 i 1,190ha yn 2023. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2025 yn 840ha y flwyddyn, sef cyfanswm o 313,000ha o'i gymharu â 310,000 yn 2020.

7.2.5 Cyrff Dŵr Wyneb a Dŵr Daear

Mae canran y cyrff dŵr wyneb a chyrff dŵr daear sy'n cyflawni statws rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr da wedi cynyddu o 37% yn 2015 i 40% yn 2024¹³⁴.

7.3 CRYFHAU ECOSYSTEMAU

7.3.1 Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd

Mae Cymru'r Dyfodol a **Pholisi Cynllunio Cymru** yn gosod y gofyniad am weithredu strategol i ddiogelu rhwydweithiau ecolegol a sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth (budd net). Maent hefyd yn ceisio gwneud y defnydd gorau o seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur fel rhan o lunio twf trefol, cefnogi cymunedau gwledig ac ymateb i'r ddwy her o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth.

Roedd y diweddariad i **Bolisi Cynllunio Cymru** (12fed Argraffiad) yn 2024, yn codi seilwaith gwyrdd fel elfen hanfodol o ddatblygiad cynaliadwy, sy'n gadarnhaol o safbwynt natur. Mae'n mynnu bod pob cais cynllunio yn cynnwys Datganiad Seilwaith Gwyrdd sy'n dangos sut mae gwella bioamrywiaeth, budd net ac atebion aml-swyddogaethol sy'n seiliedig ar natur yn cael eu hintegreiddio.

¹³² [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

¹³³ [Ystadegau Coedwigaeth 2025 - Forest Research](#)

¹³⁴ [Dangosydd Cenedlaethol 45](#)

7.3.2 Gwastadeddau Gwent: Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae Polisi 9 Cymru'r Dyfodol yn dynodi Gwastadeddau Gwent fel Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Gwastadeddau Gwent wedi derbyn llawer o sylw ynghylch y cydbwysedd rhwng diogelu ei adnoddau naturiol a chyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy a datblygu economaidd o arwyddocâd cenedlaethol. Er mwyn diogelu ei rhwydweithiau ecolegol, ei chynefinoedd a'i bioamrywiaeth, mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu Canllawiau Cynllunio Strategol peilot.

Wrth ddatblygu'r Canllawiau Cynllunio Strategol, mae cydweithredu ac ymgysylltu helaeth wedi digwydd ar draws ffiniau awdurdodau lleol er mwyn cydlynu ymateb polisi strategol i heriau cynllunio o fewn yr Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Bydd y canllawiau ddrafft canlyniadol¹³⁵, a fu'n destun ymgynghoriad ar ddechrau 2026, nid yn unig yn cynorthwyo i gyflawni gofynion Polisi 9, ond hefyd yn gweithredu fel dull peilot a thempled pwysig ar gyfer Canllawiau Cynllunio Strategol eraill sy'n cwmpasu'r Ardaloedd Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a nodir o fewn Cymru'r Dyfodol.

7.4 ARDALOEDD CADWRAETH ARBENNIG AFONYDD A MOROL

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) dystiolaeth yn cadarnhau bod dros 60% o afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), gan gynnwys afonydd Gwy, Wysg a Teifi, wedi methu â chyflawni targedau ansawdd dŵr llymach ar gyfer ffosfforws. Cyflwynodd hyn yr angen i ddangos niwtraliaeth o safbwynt maetholion, gan brofi na fyddai datblygiad newydd yn cynyddu lefelau ffosffad yn y system afonydd i lefel a fyddai'n creu effaith andwyol sylweddol¹³⁶. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan nad oeddent yn gallu rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer tai newydd neu fwrw ymlaen gyda Chynlluniau Datblygu Lleol oni bai eu bod yn fodlon na fyddai'r datblygiad yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd afonydd ACA.

Erbyn dechrau 2024, fel rhan o'u rhaglenni buddsoddi cyfalaf yng Nghynlluniau Rheoli Asedau 6 (2020-25) a 7 (2025-30), roedd Dŵr Cymru wedi ymrwymo i osod technoleg tynnu ffosfforws a datrysiadau naturiol mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff penodol yr effeithir arnynt. Mae gwaith atgyfnerthu a chydymffurfio â therfynau trwyddedau newydd wedi creu 'hyblygrwydd' o fewn y system garthffosiaeth bresennol mewn rhai ardaloedd. Mae hyn wedi caniatáu i rai awdurdodau lleol ddechrau pennu ceisiadau neu oedi meddiannaeth ar ddatblygiad nes bod gwaith atgyfnerthu wedi'i gwblhau yn y gwaith trin dŵr gwastraff.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru DTA Ecology i baratoi canllawiau ar nodi llwybrau ar gyfer hwyluso datblygu, gyda ffocws penodol ar ddarparu tai fforddiadwy. Cyhoeddwyd y canllawiau yn 2025¹³⁷ ynghyd â Datganiad Polisi Cynllunio Interim¹³⁸. Mae'r dull yn nodi ffafriaeth ar gyfer dull integredig o liniaru lle gall pob sector chwarae ei ran wrth gyfrannu tuag at gyflawni amcanion cadwraeth ar gyfer afonydd ACA mewn ffordd gymesur. Er bod cynnydd yn cael ei wneud wrth ganfod atebion, mae'r broblem hon wedi effeithio ar gyflawni cartrefi newydd a mathau eraill o ddatblygiadau, ac yn parhau i wneud hynny.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd CNC gyngor cadwraeth diwygiedig yn dilyn asesiadau cyflwr mewn ACAau Morol sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru. Roedd y rhain yn

¹³⁵ [Canllawiau cynllunio strategol: Ardal Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Gwastadeddau Gwent \(Polisi 9 Cymru'r Dyfodol\)](#)

¹³⁶ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i faethynnau](#)

¹³⁷ [Canllawiau Cynllunio - Datblygiad mewn Afonydd ACA \(2024\)](#)

¹³⁸ [Datganiad Polisi Cynllunio Interim ar Ddatblygiad mewn Afonydd ACA \(2025\)](#)

cadarnhau bod nitrogen anorganig toddedig yn cyfrannu at gyflwr anffafriol rhai o'r ACAau morol. Mae'r darganfyddiad hwn wedi sbarduno gofynion pellach o safbwynt niwtraliaeth maetholion ar gyfer datblygiadau yn Sir Benfro a Bae Caerfyrddin ac ACAau Aberoedd, gan ehangu'r effaith ar benderfynu ar geisiadau cynllunio a pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n weithredol ag Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) a CNC i chwilio am ffordd ymlaen o ran defnyddio canllawiau presennol LIC/DTA mewn modd ymarferol gyda'r ACAau Morol a'r broblem nitradau. Nod y fenter hon yw darparu enghreifftiau ymarferol i swyddogion cynllunio a chynnig sicrwydd pellach am y llwybrau sy'n bodoli er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol a chynigion datblygu'n gallu cael eu cyflwyno yn unol â'r Gyfarwydddeb a'r Rheoliadau Cynefinoedd.

Er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ymhellach, mae Llywodraeth Cymru wedi ehangu cwmphas **Cyfrifiannell Cyllideb Maetholion Cymru Gyfan**¹³⁹. Erbyn diwedd 2025, roedd yr adnodd wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys darpariaeth ar gyfer nitrogen yn ogystal â ffosffadau, mewn ymateb i gyngor cadwraeth morol diweddar. Yn ogystal, mae ei gwmpas daearyddol wedi cael ei ymestyn i gynnwys dalgylchoedd afonydd ac ardaloedd arfordirol nad ydynt wedi'u mapio yn y gorffennol, gan sicrhau bod datblygwyr ar draws yr holl ranbarthau yr effeithir arnynt yn cael mynediad at ddull safonol, seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer meintoli a lliniaru eu heffaith ar faetholion.

7.5 LANDMAP

Mae LANDMAP yn adnodd tirwedd Cymru Gyfan sy'n seiliedig ar GIS lle mae nodweddion tirwedd a dylanwadau ar y dirwedd yn cael eu cofnodi a'u gwerthuso mewn set ddata sy'n gyson yn genedlaethol. Er mwyn cynnal yr effeithiolrwydd a'r hyder yn LANDMAP fel yr adnodd gwaelodlin tirwedd allweddol yng Nghymru, mae'r wybodaeth mapio ac arolygu yn cael ei diweddarau o bryd i'w gilydd. Mae gwaith monitro tirwedd yn mynd rhagddo a fydd yn llywio diweddariadau i dystiolaeth LANDMAP ac ailasesu ansawdd ac amrywiaeth tirweddau, a thirweddau dynodedig. Bydd allbynnau'r gwaith monitro yn bwydo i waith monitro at y dyfodol ac unrhyw adolygiad o Gymru'r Dyfodol.

7.6 DYNODIAD PARC CENEDLAETHOL

Yn ei **Rhaglen Lywodraethu (2021-2026)**¹⁴⁰, nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Nghymru. Comisiynodd Llywodraeth Cymru CNC i werthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gynt). Bu CNC yn gwerthuso'r achos gan gasglu data a thystiolaeth, ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill. Arweiniodd hyn at Orchymyn Dynodi i greu Parc Cenedlaethol Newydd. Yn ystod y Cyfnod Hysbysu statudol ynghylch y Gorchymyn Dynodi, mae sawl ymgynghorai statudol (h.y. Awdurdodau Lleol yn ardal y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig) wedi gwrthwynebu. Mae hyn yn golygu y bydd angen i Weinidogion Cymru gynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid cadarnhau'r Gorchymyn Dynodi. Gan ddibynnu ar ganlyniad y broses hon, efallai y bydd goblygiadau gofodol y bydd angen eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o Gymru'r Dyfodol yn y dyfodol.

¹³⁹[Cyfrifiannell cyllideb maetholion | LLYW.CYMRU](#)

¹⁴⁰[Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru](#)

7.7 CRYNODEB O'R CASGLIADAU

Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn sefydlu fframwaith ar gyfer cryfhau ecosystemau a gwella bioamrywiaeth. Er mwyn sicrhau bod cerrig milltir hirdymor yn cael eu cyflawni, rhaid i'r system gynllunio barhau i gyfathrebu pwysigrwydd sylfaenol gwytnwch ecolegol a darparu eglurder i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth gydbwyso blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Dylai unrhyw adolygiad o Gymru'r Dyfodol ystyried y cydbwysedd rhwng prif bolisïau gofodol, anofodol, a datblygu er mwyn sicrhau dull cynhwysfawr.

Er bod polisiïau a mentrau ehangach Llywodraeth Cymru wedi cyflawni llwyddiannau nodedig o ran adfer mawndir a phlannu coetiroedd, mae heriau sylweddol yn parhau. Mae adroddiad **Llesiant Cymru (2025)** a **SoNaRR 2025** yn cadarnhau bod amrywiaeth fiolegol gyffredinol yn parhau i ddirywio, ac mae'r ôl troed ecolegol cenedlaethol yn dal i fod yn fwy na bioallu'r Ddaear. Fel llawer o wledydd datblygedig, mae Cymru'n defnyddio adnoddau ar gyfradd anghynaliadwy, ac mae angen canolbwyntio'n barhaus ar effeithlonrwydd adnoddau ac arferion economi gylchol.

Ar ben hynny, er bod buddsoddiad a chanllawiau polisi cenedlaethol wedi dechrau datgloi datblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd a oedd wedi'u hoedi'n flaenorol o ganlyniad i ofynion niwtraliaeth maetholion, mae'r pwysau a'r heriau'n parhau. Mae cynnal momentwm yn hanfodol i sicrhau bod diogelu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy yn digwydd law yn llaw.

Ar y cyfan, mae cynnydd yn gymysg ar lefel genedlaethol. Bydd gweithredu parhaus ac effeithiol yn hanfodol er mwyn atal colledion bioamrywiaeth ac adeiladu gwytnwch ecosystemau dros gyfnod y cynllun.

8.0 Cwestiwn 7: A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi economi sy'n darparu ffyniant i bawb?

Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi economïau cenedlaethol a rhanbarthol trwy hwyluso'r gwaith o ddarparu swyddi a seilwaith yn y mannau cywir. Mae asesu cynnydd tuag at ddangosyddion economaidd allweddol a chyflawni Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol, a seilwaith trafnidiaeth, ynni a digidol yn cael eu hystyried yn fesurau allweddol o gynnydd.

8.1 GWEITHGARWCH ECONOMAIDD


8.1.1 Heriau Economaidd

Mewn adolygiad cyntaf, mae'n bwysig nodi, ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, bod Cymru a gweddill y DU wedi dioddef cyfnod o ansicrwydd economaidd. Mae **Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025**¹⁴¹ yn cyfeirio at effaith sylweddol Brexit, pandemig Covid-19, chwyddiant uchel a'r argyfwng costau byw ar yr economi. Felly, er gwaethaf polisïau sy'n cefnogi ffyniant economaidd yng Nghymru'r Dyfodol, gellir dadlau ei bod yn rhy gynnar i asesu cynnydd economaidd.

8.1.2 Incwm

Fel ar draws y DU, mae twf yn yr economi ac incwm gwirioneddol yng Nghymru wedi bod yn araf, gan adlewyrchu twf cynhyrchiant isel. Mae un mesur o gynhyrchiant, Gwerth Ychwanegol Gros fesul awr a weithiwyd, wedi bod yn gymharol sefydlog ers 1998 ond mae'n is yng Nghymru nag mewn gwledydd eraill y DU a rhanbarthau yn Lloegr. Yn 2023 roedd yn 84.9% o ffigwr y DU, i fyny o 84.4% yn 2020¹⁴².

*Graff 12: Gwerth ychwanegol gros Cymru fesul awr a weithiwyd, o'i gymharu â'r DU (DU = 100), 1998 i 2023*¹⁴³



Mae'r Gwerth Ychwanegol Gros (£ y pen) yng Nghymru¹⁴⁴ wedi cynyddu'n raddol o £20,968 yn 2020 i £25,742 yn 2024, fodd bynnag, mae hyn unwaith eto yn is na chyfartaledd y DU.

¹⁴¹ [Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru Hydref 2025](#)


¹⁴² [Dangosydd Cenedlaethol 9](#)

¹⁴³ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

¹⁴⁴ [Gwerth ychwanegol gros yn ôl ardal a blwyddyn | StatsCymru](#)


Mae ffigurau incwm cartrefi yn darparu dangosydd o ffyniant a lles materol pobl. Mae'r dangosydd cenedlaethol ar incwm yn defnyddio mesur Incwm Gwario Gros Aelwydydd. Ar y mesur hwn, mae Cymru, ar gyfer 2023, wedi codi 14% ers 2020 er ei bod yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU.

Graff 13: Incwm gwario gros aelwydydd y pen, Cymru a'r DU, 1999 i 2023¹⁴⁵



Pobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yw'r rhai sy'n byw mewn cartref lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o bob ffynhonnell yn llai na 60% o incwm cyfartalog aelwydydd y DU (fel y nodir gan y canolrif). Yn 2021-23 a 2022-24, roedd 22% o'r holl bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai)¹⁴⁶. Mae ffigurau ar gyfer 2022-24 yn cofnodi bod plant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, sef 31% o'i gymharu ag oedolion oedran gweithio (21%) a phensiynwyr (16%).

Graff 14: canran pob grŵp oedran yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), cyfartaledd 3 blwyddyn ariannol¹⁴⁷



¹⁴⁵ [Dangosydd Cenedlaethol 10](#)

¹⁴⁶ [Dangosydd Cenedlaethol 18](#)

¹⁴⁷ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

Mae cynnydd wedi cael ei gydnabod yn enillion wythnosol gros canolrif Cymru, er y gellid dadlau ei fod wedi'i effeithio gan chwyddiant cynyddol. Cynyddodd yr enillion o £541.50 yn 2020 i £675.60 yn 2024¹⁴⁸.

Ar ben hynny, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi bod yn lleihau yn gyffredinol dros y 2 ddegawd diwethaf ac wedi gostwng i 1.9% yn 2024. Mae'r bwlch ethnigrwydd a thâl anabledd yn gyfnewidiol iawn sy'n golygu nad ydym yn gallu penderfynu a oes newid sylweddol wedi bod ers 2015¹⁴⁹.

Mae amddifadedd materol yn fesur o safonau byw, ac mae person yn cael ei ddiffinio i fod yn byw mewn amddifadedd materol os nad yw'n gallu cael mynediad at nifer penodol o nwyddau a gwasanaethau. Cofnodwyd ffigurau amddifadedd materol ar gyfer pobl yn 2024-25 ar 11%, i lawr o 16% yn 2022-23 a 13% yn 2019-20¹⁵⁰.

Mae canran y bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol wedi dangos gostyngiad cyffredinol o'r uchafbwynt o 70.4% yn 2013 er gwaethaf rhywfaint o anwadalrwydd yn y data dros y cyfnod hwn¹⁵¹. Hefyd, mae cyfran y gweithwyr y mae eu cyflog yn cael ei osod gan fargeinio ar y cyd i lawr o 54.8% yn 2020 i 52.8% yn 2024¹⁵². Gostyngodd cyfanswm cyfartalog cyfoeth aelwydydd yng Nghymru hefyd o £275,700 yn 2018-20 i £266,900 yn 2020-22¹⁵³.

8.1.3 Addysg a Chymwysterau

Sgiliau a chymwysterau yw'r dylanwad unigol mwyaf ar siawns pobl o fod mewn cyflogaeth ac ar eu hincwm. Mae lefelau cymwysterau yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2008. Yn 2024¹⁵⁴, adroddwyd bod gan 68.6% o oedolion o oedran gweithio (18 i 64 oed) gymwysterau lefel 3+, wedi cynyddu o 62.4% yn 2020. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r canlyniadau hyn yn gymharol oherwydd newidiadau yn y cwestiynau yn yr Arolwg Poblogaeth Blyneddol.

Mae cyfran y bobl rhwng 16 a 18 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn dilyn gostyngiad yn 2021. Mae cyfran y bobl rhwng 19 a 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi aros yn gymharol gyson dros y 5 mlynedd diwethaf, er gwaethaf amrywiadau yn ystod y cyfnod hwn¹⁵⁵.

8.2 CYFLOGAETH

8.2.1 Cyfradd Gyflogaeth

Roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer pobl anabl rhwng 16 a 64 mlwydd oed yng Nghymru yn 73.4%¹⁵⁶ yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 ac roedd cyfradd y DU yn 75.4%. Mae'r cyfraddau hyn yn gymharol sefydlog o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2005, mae'r gyfradd gyflogaeth wedi cynyddu 4.0

¹⁴⁸ [Enillion wythnosol gros cyfartalog \(canolrif\) fesul awr yn ôl ardal leol Cymru, rhanbarth Lloegr, gwlad a blwyddyn y DU \(£\) | StatsCymru](#)

¹⁴⁹ [Dangosydd Cenedlaethol 17](#)

¹⁵⁰ [Dangosydd Cenedlaethol 19](#)

¹⁵¹ [Dangosydd Cenedlaethol 16](#)

¹⁵² [Dangosydd Cenedlaethol 20](#)

¹⁵³ [Economi Cymru mewn rhifau: dangosfwrdd rhyngweithiol | LLYW.CYMRU](#)

¹⁵⁴ [Dangosydd Cenedlaethol 8](#)

¹⁵⁵ [Dangosydd Cenedlaethol 22](#)

¹⁵⁶ [Dangosydd Cenedlaethol 21](#)

pwynt canran yng Nghymru a 2.9 pwynt canran yn y DU, gyda'r bwlch yn y gyfradd gyflogaeth yn lleihau o 3.1 pwynt canran i 2.0 pwynt canran¹⁵⁷.

Cofnodwyd hefyd bod y gyfradd ddiweithdra wedi lleihau dros y ddegawd ddiwethaf, fodd bynnag mae **Trosolwg y farchnad lafur: Gorffennaf 2025**¹⁵⁸ sy'n cofnodi'r gyfradd yn chwarterol yn amlygu bod lefelau diweithdra'n cynyddu ers pandemig 2020. Cododd isafswm o 2.9% yn ail chwarter 2019 i 4.4% yn chwarter cyntaf 2025.

8.2.2 Diweithdra Rhanbarthol

Nid yw lefelau cyflogaeth yng Nghymru yn gyfartal. Mae adroddiad **Tueddiadau'r Dyfodol 2021**¹⁵⁹ yn nodi sut mae De-ddwyrain Cymru wedi gweld gostyngiadau sylweddol mewn diweithdra, tra bod canolbarth Cymru wedi profi ychydig iawn o newid. Ar ben hynny, ers 2001, gwelwyd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn swyddi yng Nghymru yng Nghaerdydd yn ystod y cyfnod hwn gyda chynnydd o 45.5%, sy'n gyson â thwf poblogaeth yr ardal dros y ddau ddegawd diwethaf. Yn y cyfamser, gwelwyd y gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn swyddi ym Mlaenau Gwent, sef -19.1%. Yn amlwg, mae anghydraddoldebau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol yn bodoli yng Nghymru. Gellir dadlau bod hyn yn cynyddu'r angen am gynnydd gyda'r Cynlluniau Datblygu Strategol, fel y gall awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i bontio'r anghydraddoldebau sy'n bresennol yn eu rhanbarth a helpu datblygu cynaliadwy.

8.3 POLISI DATBLYGU ECONOMAIDD

Mae strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yn darparu fframwaith arweiniol ynghylch ble y bydd newidiadau ar raddfa fawr a datblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu ffocysu dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn nodi tair Ardal Dwf Genedlaethol sy'n nodweddiadol o safbwynt economaidd. Y rhain yw Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd, Bae Abertawe a Llanelli a Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, sy'n cefnogi amrywiaeth o fusnesau, mentrau a phrifysgolion. Mae'r Ardaloedd hyn yn lleoedd o arwyddocâd rhyngwladol a chenedlaethol ac mae Cymru'r Dyfodol yn hybu eu twf a'u hadfywiad parhaus.

Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn nodi ystod o Feysydd Twf Rhanbarthol pwysig a ddylai, drwy bolisiau penodol mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol, gynnal a gwella'r sylfaen fasnachol a gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu gwneud yn ganolbwynt yn eu hardaloedd.

Wrth sefydlu'r Ardaloedd hyn o fewn Cymru'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu fframwaith ar gyfer polisiau cydgysylltiedig, cyflawni seilwaith a gwariant gan y Llywodraeth, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid.

8.3.1 Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol

Mae bargeinion twf dinesig a rhanbarthol yn gytundebau rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i gydlyn buddsoddiad ac ymyriadau polisi i ysgogi twf mewn meysydd allweddol. Mae cytundebau twf ar waith ac er bod cynnydd yn gymysg, fel yr amlygwyd gan yr Ymchwiliad diweddar gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, maent yn dod i'r amlwg ym mhob un o'r pedair ardal ranbarthol yng Nghymru.

¹⁵⁷ [Llesiant Cymru \(2025\)](#)

¹⁵⁸ [Trosolwg o'r farchnad lafur \(Gorffennaf 2025\)](#)

¹⁵⁹ [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol \(2021\)](#)

8.3.2 Parthau buddsoddi¹⁶⁰

Yn 2024, cyhoeddodd Llywodraethau Cymru a'r DU ar y cyd y bydd dau barth buddsoddi yng Nghymru yn cael eu darparu gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar gyfer pob rhanbarth. Bydd Ardaloedd Teithio i'r Gwaith (TTWAs) Caerdydd a Chasnewydd yn canolbwyntio ar sbarduno arloesedd a thwf ar draws y sectorau gweithgynhyrchu lefel uwch a'r sectorau digidol a thechnoleg, gan ganolbwyntio ar glwstwr lled-ddargludo'r rhanbarth. Mae Ardal Teithio i'r Gwaith (TTWA) Wrecsam a Sir y Fflint yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgynhyrchu lefel uwch.

8.3.3 Porthladdoedd rhydd

Ym mis Mai 2022, daeth Llywodraeth Cymru i gytundeb gyda Llywodraeth y DU i sefydlu rhaglen porthladdoedd rhydd yng Nghymru. Yn dilyn proses ymgeisio, cyhoeddwyd y byddai dau borthladd rhydd newydd yn cael eu sefydlu, sef Y Porthladd Rhydd Celtaidd yn Aberdaugleddau a Phort Talbot a Phorthladd Rhydd Ynys Môn yng Ngogledd Cymru¹⁶¹. Mae'r rhain yn barthau arbennig sy'n elwa o weithdrefnau tollau symlach, rhyddhad ar drethi tollau, buddion treth, a hyblygrwydd datblygu. Maent wedi'u llunio i hybu adfywiad a chreu swyddi o ansawdd uchel, i ddod yn ganolfannau cenedlaethol ar gyfer masnach a buddsoddiad byd-eang ar draws yr economi, a meithrin amgylchedd arloesol.

Mae Polisi 10 Cymru'r Dyfodol yn tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi a diogelu Pyrrh Strategol gan gynnwys porthladdoedd oherwydd eu rôl hanfodol yn yr economi leoli, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol.

8.3.4 Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Strategaeth Ddiwydiannol Fodern¹⁶² sy'n darparu uchelgais a llwybr clir ar gyfer cynyddu buddsoddiad busnes a sicrhau twf diwydiannau'r dyfodol. Mae'n rhoi hyder i fuddsoddwyr ac yn helpu i lunio gweledigaeth yn y dyfodol sy'n adeiladu ar gryfderau Cymru. Cafwyd cyhoeddiadau eraill hefyd gan gynnwys Cyflymydd Safleoedd Strategol newydd, clwstwr Bargen Twf Amddiffyn, datblygu Parthau Twf Deallusrwydd Artiffisial a chymorth parhaus ein Bargeinion Dinesig a Thwf, gyda'r nod o helpu i ddenu buddsoddiad. Mae Cynllun Gweithredu Parthau Strategaeth Ddiwydiannol hefyd wedi'i gyhoeddi mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ac mae'n cwmpasu'r Parthau Buddsoddi a amlygir yn 8.3.2.

8.3.5 Darparu Seilwaith

Mae darparu seilwaith yn ganolog i economi, gan symud adnoddau, pobl a gwybodaeth er mwyn ysgogi ffyniant uniongyrchol a hirdymor. Mae **Adroddiad Blynyddol 2024-25**¹⁶³ Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y buddsoddiad o £800 miliwn mewn rheilffyrdd, gyda'r rhan fwyaf o deithiau Trafnidiaeth Cymru bellach yn cael eu gwneud ar drenau newydd, gan gyflwyno gwasanaethau cyflymach, amlach a mwy dibynadwy. Mae Metro De Cymru hefyd yn un o'r prosiectau mwyaf, a mwyaf trawsnewidiol a wnaed yng Nghymru erioed, ac mae camau sylweddol wedi'u gwneud tuag at ei gwblhau yn ystod tymor y Senedd. Gyda buddsoddiad dros £1 biliwn, mae gwasanaethau amlach wedi cael eu cyflwyno o Gaerffili a Phontypridd i Gaerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnig gwell opsiynau teithio i gymudwyr a chymunedau. Mae llinellau Treherbert, Aberdâr a Merthyr wedi cael trydaneiddio, gan

¹⁶⁰ [Rhaglen parth buddsoddi | LLYW.CYMRU](#)

¹⁶¹ [Datgelu Porthladdoedd Rhydd newydd Cymru | LLYW.CYMRU](#)

¹⁶² [Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU 2025 - GOV.UK](#)

¹⁶³ [Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2024-2025](#)

alluogi'r trenau trydan cyntaf erioed i redeg ar y llwybrau hyn, sy'n rhan o'r buddsoddiad o £800 miliwn mewn trenau newydd.

Mae'r cynllun Rhwydwaith Gogledd Cymru hefyd yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer mwy o wasanaethau tebyg i'r metro sy'n rhedeg yn amlach ar hyd prif linell Gogledd Cymru a rhwng Wrecsam a Lerpwl - gan helpu i gysylltu cymunedau'n well a gwella'r economi dros y blynyddoedd i ddod.

8.3.6 Twristiaeth

Er ei fod yn ymwneud yn bennaf â'r pandemig, mae twristiaeth yng Nghymru wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2024, mae ystadegau twristiaeth Domestic Prydain¹⁶⁴ yn cofnodi bod trigolion Prydain wedi cwblhau 7.61 miliwn o deithiau dros nos yng Nghymru, gan aros am gyfanswm o 22.30 miliwn noson, gyda gwariant cronol o £2.24 biliwn. Hyd cyfartalog y teithiau hyn yng Nghymru oedd 2.9 noson, gydag ymwelwyr yn gwario £295 ar gyfartaledd fesul taith. O'i gymharu â data'r flwyddyn flaenorol o 2023, gwelwyd gostyngiad o 10% yng nghyfanswm y teithiau a wnaed yn 2024, ond cynnydd o 11% yng nghyfanswm y gwariant. Gellid rhoi ystyriaeth bellach i botensial Cymru'r Dyfodol i gynnwys canllawiau polisi mwy manwl ar gyfer twristiaeth a threftadaeth er budd helpu awdurdodau lleol i ysgogi economïau twristiaeth ac ailadeiladu un o'i sectorau cyflogaeth allweddol. Gellid ymgorffori cyfleoedd adfywio o arwyddocâd cenedlaethol hefyd er mwyn cynyddu pwysigrwydd adfer twristiaeth genedlaethol a byd-eang yng Nghymru.

8.3.7 Canol Trefi

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu polisi 'canol trefi yn gyntaf' mewn perthynas â lleoliad datblygu canolfannau manwerthu a masnachol newydd. Mae'n ceisio blaenoriaethu canol trefi ar gyfer cyfleusterau masnachol, manwerthu, iechyd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus newydd i gynyddu nifer yr ymwelwyr a chreu cymunedau bywiog, cynaliadwy.

Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â datblygu ar raddfa fawr a thu allan i'r canol. Wrth weithredu'r polisi hwn, mae angen i awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull dilyniannol o ddewis safleoedd newydd yn eu cynllun datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer manwerthu a defnyddiau cyflenwol eraill. Trwy fabwysiadu dull dilyniannol, dylai'r dewis cyntaf fod i leoli datblygiad newydd o fewn canolfan fanwerthu a masnachol a ddiffinnir yn hierarchaeth canolfannau'r cynllun datblygu. Dylai datblygwyr ddangos bod pob opsiwn manwerthu a masnachol yn y canol, ac yna ar gyrion y canol, wedi cael eu hasesu'n drylwyr gan ddefnyddio dull dilyniannol cyn ystyried safleoedd y tu allan i'r canol.

8.3.8 Seilwaith Digidol

Mae **Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd (2025)**¹⁶⁵ yn cadarnhau cynnydd sylweddol mewn seilwaith digidol yng Nghymru. O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae cwrpas capasiti gigabit, ffibr llawn a band eang cyflym iawn wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2019.

Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Strategaeth Ddigidol Cymru**¹⁶⁶ sy'n nodi cyfres o feysydd blaenoriaeth o dan chwe chenhadaeth sydd, gyda'i gilydd, yn anelu at gyflymu manteision arloesi digidol i bobl, gwasanaethau cyhoeddus ac ar draws y gymuned fusnes. Gan adeiladu ar Strategaeth Ddigidol Cymru, cyhoeddwyd **AI Cymru: Creu Cymru fwy**

¹⁶⁴ [Ystadegau twristiaeth Prydain Fawr \(tripiau dros nos yng Nghymru\): 2024](#)

¹⁶⁵ [Connected Nations UK Report 2025](#)

¹⁶⁶ [Strategaeth ddigidol i Gymru \(2021\)](#)

Clyfar, Teg a Ffyniannus¹⁶⁷ yn 2025 yn cwmpasu cynllun Llywodraeth Cymru i ddefnyddio grym trawsnewidiol Deallusrwydd Artiffisial i ysgogi twf economaidd, gwella gwasanaethau cyhoeddus ac arfogi pobl ledled Cymru gyda'r sgiliau i ffynnu mewn dyfodol wedi'i siapio gan Ddeallusrwydd Artiffisial. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddenu buddsoddiad i Gymru sy'n gysylltiedig â'r angen am fwy o ganolfannau data a lled-ddargludyddion. Wrth wneud hynny, mae'n tynnu sylw at gyfleoedd sy'n gysylltiedig â nodi parthau twf deallusrwydd artiffisial i greu ecosystem ffyniannus ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau ac atebion deallusrwydd artiffisial a phwysigrwydd mynediad uniongyrchol i ffynonellau ynni.

8.4 CRYNODEB O'R CASGLIADAU

Ers ei gyhoeddi, mae Cymru'r Dyfodol wedi gweithredu o fewn hinsawdd economaidd heriol ac sydd wedi cael ei lywio gan effeithiau Brexit, y pandemig Covid-19, chwyddiant uchel ac argyfwng costau byw. Er bod yr economi'n cael ei dylanwadu gan nifer o wahanol ffactorau y tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol y system gynllunio, mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn bwysig o ran darparu fframwaith ar gyfer twf economaidd.

Mae dangosyddion economaidd yn dangos tueddiadau cymysg; mae Gwerth Ychwanegol Gros wedi cynyddu, mae incwm gwario ac enillion gros wedi cynyddu, tra bod tlodi incwm cymharol wedi aros yr un fath ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol. Mae dangosyddion yn awgrymu gostyngiad mewn bylchau cyflog anabledd, rhyw ac ethnigrwydd, er bod data yn gyfnewidiol iawn. Fodd bynnag, mae enillion cyflog byw gwirioneddol a chyfanswm cyfoeth aelwydydd canolrif cyfartalog wedi gostwng.

Mae Cymru'r Dyfodol yn amlwg yn cefnogi ffyniant economaidd o fewn polisïau, ac mae ei strategaeth ofodol yn darparu fframwaith arweiniol ar gyfer twf a buddsoddiad. Mae'n amlwg y gall Cymru'r Dyfodol gyflwyno polisi economaidd mewn modd gofodol, gan fod cymhlethdod ac ehangder datblygiad economaidd yn cael ei esbonio'n well o fewn Polisi Cynllunio Cymru. Mae Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol wedi darparu canllawiau ynghylch ble y dylid gosod blaenoriaeth economaidd genedlaethol, sydd wedi cyd-fynd yn fras â chyhoeddiadau buddsoddi allweddol y Llywodraeth sy'n gysylltiedig â Bargeinion Twf Dinas a Rhanbarthol, Parthau Buddsoddi a Strategaeth Ddiwydiannol ddiweddar y DU. Fodd bynnag, byddai modd rhoi ystyriaeth bellach i'w diffinio'n fwy manwl o safbwynt gofodol er mwyn darparu mwy o gywirdeb a sicrwydd, ac esblygu i gyd-fynd ag unrhyw newidiadau i gynlluniau economaidd ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae gan Gymru'r Dyfodol botensial i ehangu ei fanylder o ran creu mapiau gofodol o ardaloedd sydd angen twf economaidd ac adfywio. Hefyd, wrth nodi ardaloedd ar gyfer sectorau twf uchel, er enghraifft, parthau twf Deallusrwydd Artiffisial. Fodd bynnag, dylid cydnabod y dylid blaenoriaethu polisi cenedlaethol ar gyfer datblygu economaidd o fewn Polisi Cynllunio Cymru, a dylai Cymru'r Dyfodol barhau i gefnogi blaenoriaethau gofodol clir ar gyfer pontio anghydraddoldebau economaidd ac adfywio ardaloedd o ddiffyg twf economaidd.

Er nad yw Cymru'r Dyfodol wedi cael digon o amser i ddylanwadu'n llawn ar ganlyniadau economaidd, mae'r cyfeiriad polisi'n cyd-fynd â ffactorau sy'n arwain ffyniant, ac mae'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer monitro parhaus ac ymyrraeth strategol at y dyfodol.

¹⁶⁷ [Al Cymru: Shaping a Smarter, Fairer, More Prosperous Wales \[HTML\]](#) | [GOV.WALES](#)

9.0 CASGLIADAU TERFYNOL

Mae'r 5 mlynedd gyntaf ers cyhoeddi Cymru'r Dyfodol yn nodi cyfnod tyngedfennol, ond cynnar, wrth asesu ei effaith hirdymor. Mae hefyd wedi gweithredu o fewn cyd-destun heriol, wedi'i ddiffinio gan aflonyddwch economaidd byd-eang sylweddol. Fodd bynnag, mae Cymru'r Dyfodol yn parhau i ddarparu fframwaith hanfodol, strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau a mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol drwy'r system gynllunio. Mae'n cyd-fynd â nodau trosfwaol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac yn darparu'r cyfeiriad angenrheidiol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.

Mae arwyddion cynnar yn awgrymu cynnydd mewn sawl maes critigol ar lefel genedlaethol gan gynnwys datgarboneiddio, ansawdd aer, ynni adnewyddadwy a chyflenwi tai fforddiadwy. Mae Cymru'r Dyfodol, ochr yn ochr â pholisïau cenedlaethol eraill, wedi darparu'r fframwaith cynllunio i hwyluso'r cynnydd a wnaed.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn gymysg mewn rhai meysydd blaenoriaeth uchel, megis gweithredu Cynlluniau Datblygu Strategol, cynnydd mewn teithio llesol, gwell canlyniadau iechyd, mynd i'r afael â'r argyfwng natur a ffyniant economaidd. Mae'r gwahaniaeth mewn canlyniadau yn tynnu sylw at yr angen am ffocws parhaus a'r gydnabyddiaeth bod rhai uchelgeisiau strategol angen amser i aeddfedu.

Bydd cynnydd mewn sawl maes yn hanfodol i lwyddiant y cynllun dros y blynyddoedd i ddod. Rhaid talu sylw penodol i gyflawni Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn dilyn cyhoeddi cyllid cymhelliant a ffioedd uwch ar gyfer cynllunio, sydd â'r bwriad o gyflymu'r broses o greu cynlluniau. Bydd gweithredu canllawiau arbenigol, megis Canllawiau Cynllunio Atodol Gwastadeddau Gwent, cyflwyno'r Cynllun Seilwaith Strategol ac allbynnau gwaith cynllunio strategol NESO yn feysydd allweddol i'w monitro, ac mae'n bosibl y bydd angen ystyriaeth benodol ar sut y gallai fod angen addasu Cymru'r Dyfodol dros gyfnod y cynllun. Yn ogystal, bydd angen parhau i fonitro polisi economaidd ehangach a phenderfyniadau buddsoddi cenedlaethol i sicrhau bod Cymru'r Dyfodol yn parhau i ddarparu'r cyfeiriad gofodol a'r fframwaith ar gyfer twf economaidd drwy'r system gynllunio.

Bydd parhau i fonitro newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol arfaethedig yn ymwneud â meysydd blaenoriaeth ac ymgysylltu gyda Llywodraeth y dyfodol yn dilyn etholiadau mis Mai hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn gadarn, yn ymatebol ac yn addas i'r diben dros gyfnod y cynllun.

I gloi, mae Cymru'r Dyfodol yn dal i fod yn lasbrint cenedlaethol ar gyfer llywio llwybr Cymru tuag at 2040, ac mae ei strwythur yn dal i fod yn gadarn ac yn berthnasol. Er bod canlyniadau cynnar yn gymysg, mae'r strategaeth yn cadw ei grym a'i chapasiti i gyflawni newid ystyrlon. Er nad yw'r asesiad wedi nodi angen brys i ddiwygio Cymru'r Dyfodol, mae'r canlynol wedi cael eu hamlygu fel meysydd posibl i'w hystyried ymhellach fel rhan o unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn ddarostyngedig i ymgysylltiad parhaus gyda rhanddeiliaid trwy'r broses fonitro, trafodaethau gyda'r Llywodraeth nesaf ac yn cael ei lywio gan alwad am dystiolaeth.

- **Cwmpas cynlluniau rhanbarthol a lleol:** Monitro cynnydd cwmpas Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.
- **Polisïau cenedlaethol:** Cynnwys mwy o bolisïau cynllun datblygu i ehangu cwmpas, eglurder ac aliniad ar draws y system gynllunio tair haen.
- **Polisïau gwneud penderfyniadau:** Ymgorffori polisïau Rheoli Datblygu ychwanegol i sefydlu safonau a meini prawf clir ar gyfer pynciau penodol yn genedlaethol.

- **Cydbwysedd polisi:** Adolygu'r cydbwysedd rhwng prif bolisiâu gofodol, anofodol, a datblygu er mwyn sicrhau dull cynhwysfawr.
- **Alinio cylchoedd diweddarau:** Diweddarau Cymru'r Dyfodol ar yr un pryd â Pholisi Cynllunio Cymru i wella'r berthynas rhwng y fframweithiau polisi gofodol a thematig.
- **Cyd-destun gofodol:** Darparu canllawiau a ffiniau daearyddol mwy penodol i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd natur ofodol Cymru'r Dyfodol.
- **Ynni:** Addasu polisiâu i alinio â chynlluniau strategol NESO i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu'r cyfeiriad gofodol diweddaraf o gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- **Cysylltiadau Grid:** Datblygu polisiâu grid a choridorau gofodol o fewn Cymru'r Dyfodol i gefnogi'r gwaith o weithredu seilwaith grid newydd.
- **Monitro:** Datblygu mecanweithiau ymhellach ar gyfer monitro cynnydd tuag at flaenoriaethau allweddol.
- **Canllawiau Cynllunio Atodol:** Ystyried cyfleoedd i adeiladu ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Gwastadeddau Gwent fel offeryn ar gyfer cefnogi gweithredu polisi Cymru'r Dyfodol.
- **Meysydd Twf Economaidd:** Ystyried cysylltiadau ag ymyrraeth polisi economaidd presennol sy'n seiliedig ar leoedd a'r potensial i nodi meysydd penodol sydd angen twf economaidd, adfywio ac ar gyfer sectorau twf uchel.

Atodiad 1: Dangosyddion Monitro

Mae'r Papur Fframwaith Monitro, a gyhoeddwyd ochr yn ochr a Chymru'r Dyfodol, yn nodi sut mae Cymru'r Dyfodol yn cael ei monitro - [Cymru'r Dyfodol: monitro ac adolygu](#). Mae data ar gyfer pob dangosydd a nodwyd gan y Fframwaith Monitro wedi'i gasglu a'i ddiweddarau i lywio'r asesiad yn erbyn y 7 cwestiwn. Gweler manylion y ffynonellau a'r rhybuddion sy'n gysylltiedig â'r data a gasglwyd trwy'r dolenni unigol.

Cwestiwn 1: A yw Cymru'r Dyfodol wedi cefnogi cwmpas llawn cynlluniau datblygu ar bob un o dair haen cynlluniau datblygu?

DANGOSYDDION CENEDLAETHOL															
DANGOSYDD	CYN 2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	DATA DIWEDDARAF	YSTADEG	FFYNHONNELL
15. Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen (kg)	794					523							2019	523kg	Microsoft Power BI
Caiff data gwastraff gweddilliol fesul person gan awdurdod lleol (kg)	209	195	200	196	187	183	177	186	182	172	168		2023-24	168kg	Microsoft Power BI
23. Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (%)	25	21		20		19		26	30			19	2024-25	19%	Microsoft Power BI
26. Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw (%)				85		85		87	89			84	2024-25	84%	Microsoft Power BI
27. Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (%)	62	61		50		52		69	64			58	2024-25	58%	Microsoft Power BI
35. Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn (%)					75		71			72			2022-23	72%	Microsoft Power BI

36. Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg (%)	10	11		11	12	11	10	10	12	11		11	2024-25	11%	Microsoft Power BI
37. Nifer y bobl a all siarad Cymraeg	562,000 / 19% (2011)							538,300 / 18%					2021	538,300 / 18%	Microsoft Power BI
39. Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/trefnadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU (%)	Amgu eddfeydd			59	59	59			62	62	61	62	2025	62%	Microsoft Power BI
	Archifau			57	86	86			74	93	82	88	2025	88%	
40. Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well (%)	Adeiladau Rhestredig		74	75	75	75	75	76	76	77	76	76	2025	76%	Microsoft Power BI
	Henebion Cofrestredig		65	66	63	62	60	59	59	59	58	58	2025	58%	
46. Dinasyddiaeth fydeang weithredol yng Nghymru (%)									11			13	2024-25	13%	Microsoft Power BI

DANGOSYDD POLISI															
DANGOSYDD	CYN 2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	DATA DIWEDDAR AF	YSTADEG	FFYNHONNELL
Nifer y meysydd rhanbarthol ledled Cymru gyda SDP cyfredol ac wedi'u mabwysiadu	N/a	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2025	0	Tim Cynlluniau
Nifer o awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru gyda LDP cyfredol a fabwysiedig	10	15	18	22	23	23	23	23	23	25	25	24	2025	24 o 25	Tim Cynlluniau
Nifer yr awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru sydd wedi mabwysiadu LDP2	N/a	0	0	0	0	1	3	3	3	3	4	4	2025	4 o 25	Tim Cynlluniau
Nifer y bobl dros dair oed sy'n adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg	562,000 / 19% (2011)							538,300 / 18%					2021	538,300 / 18%	Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)

Canran o bersonau yn 3 oed neu'n hŷn sy'n adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg mewn ardaloedd rhanbarthol (%)	11.1 Caerdydd (2011)							12.2					2021	12.2% (Caerdydd cynydd mwyaf)	[HTML] LLYW.CYMRU
	43.9 Sir Gaer (2011)							39.9					2021	39.9% (Sir Caer lleihad mwyaf)	
	65.4 Gwynedd (2011)							64.4					2021	64.4% (Gwynedd % mwyaf)	

DANGOSYDDION ACI															
ACI: 5. Cyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol	CYN 2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	DATA DIWEDD ARAF	YSTADEG	FFYNHONNEL
36. Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg (%)	10	11		11	12	11	10	10	12	11		11	2024-25	11%	Microsoft Power BI
37. Nifer y bobl a all siarad Cymraeg	562,000 / 19% (2011)							538,300 / 18%					2021	538,300 / 18%	Microsoft Power BI
ACI: 13. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau, trefluniau a'n morweddau	CYN 2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	DATA DIWEDD ARAF	YSTADEG	FFYNHONNEL
Nifer yr Asesiadau Seilwaith Gwyrdd a gwblhawyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru.						1	2	4	4	7	12	13	2025	13 out of 25	Adolygiad o sail dystiolaeth LDP dros Gymru
Arwynebedd coetiroedd yng Nghymru y flwyddyn (o fil hectar).	306,000	306,000	307,000	308,000	309,000	310,000	310,000	310,000	310,000	311,000	312,000	313,000	2025	313,000Ha	Forestry Statistics 2025 - Forest Research
Arwynebedd plannu coetiroedd newydd yng Nghymru bob blwyddyn (fesul hectar).	930	100	110	410	200	670	80	290	620	1,190	640	840	2025	840Ha	Time Series - Forest Research
Adroddiadau newid LANDMAP	Dim Data														

Adolygiad o dirweddau dynodedig	Dim Data														
